



24 Mawrth 2011
www.wao.gov.uk

WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai



Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Andrew Doughton, Katrina Febry, Philip Jones, Malcolm Latham, Stephen Lisle, Ena Lloyd a Gabrielle Smith, o dan gyfarwyddyd David Thomas.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilyddwr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2011

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

**Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2011**



	Crynodeb	6
	Argymhellion	16
1	Caiff cleifion eu sgrinio fel arfer am broblemau maeth ond gellir gwella ansawdd sgrinio maethol	21
	Mae sgrinio maethol wedi gwella ond mae gwybodaeth bwysig yn eisiau yn aml	23
	Yn achos gormod o gleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth nid oes cynllun gofal ar waith ar eu cyfer ac ni chânt eu cyfeirio i gael asesiad deietegol pellach	26
	Ni chaiff cymeriant bwyd cleifion sy'n wynebu risg ei gofnodi bob amser	27
2	Mae'r rhan fwyaf o ysbytai yn cynnig dewis priodol o brydau bwyd ac mae cleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ar y cyfan, ond mae angen gwella'r asesiad maethol o fwydlenni a phrofiadau cleifion o amser bwyd	28
	Mae'r rhan fwyaf o ysbytai yn cynnig dewis priodol o brydau bwyd i gleifion ond nid yw pob bwydlen wedi'i hasesu o ran maeth	28
	Mae lle i wella systemau archebu prydau bwyd mewn nifer o ysbytai	29
	Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ond dywedodd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau	30
	Mae'r amgylchedd lle mae cleifion yn bwyta eu bwyd wedi gwella'n sylweddol	32
	Mae egwyddor amser bwyd wedi'i ddiogelu yn cael ei hymgorffori'n fwyfwy ond gellid gwneud mwy ar rai wardiau	33
	Nid yw pob claf yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod amser bwyd	34
3	Mae angen i reolwyr gael ffocws cliriach ar gostau gwasanaethau arlwygo er mwyn deall yr amrywiadau a geir yn sefydliadau'r GIG yn well a lleihau faint o fwyd a wastreffir, sy'n dal yn annerbyniol o uchel ar lawer ward	36
	Mae'r wybodaeth ariannol am wasanaethau arlwygo'n wael fel arfer a lle mae ar gael mae'n dangos amrywiadau sylweddol o ran costau o fewn a rhwng sefydliadau'r GIG	36
	Mae gwasanaethau arlwygo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn cael cymhorthdal, a hynny'n ddjarwybod yn y rhan fwyaf o achosion	42
	Mae'r lefelau o fwyd a wastreffir yn dal i fod yn annerbyniol o uchel ar lawer ward	44

4 Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu fframweithiau cenedlaethol a lleol cliriach ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau arlwy, a sicrhau y caiff y rhain eu llywio gan farn cleifion 47

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu nifer o fentrau polisi sydd â'r nod o wella arlwy mewn ysbytai a maeth cleifion 47

Mae rhai mentrau polisi sydd â'r nod o wella maeth cleifion yn dechrau gwneud gwahaniaeth a gellid gwireddu mwy o fanteision pe baent yn cael eu dwyn ynghyd o dan un fframwaith 48

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG yn parhau i ddatblygu eu strategaethau ar gyfer gwasanaethau arlwy a maeth cleifion 49

Gallai atebolrwydd gweithredol am arlwy a maeth fod yn gliriach mewn rhai cyrff iechyd 50

Dim ond gwybodaeth gyfyngedig y mae byrddau'r GIG yn ei chael am y ffordd y caiff gwasanaethau arlwy eu darparu ac am eu perfformiad a materion sy'n ymwneud â maeth cleifion 51

Mae angen datblygu dulliau mwy cynhwysfawr a chydgyssylltiedig o geisio barn cleifion a'u teuluoedd a'u defnyddio i helpu i gynllunio a datblygu gwasanaethau arlwy 51

Atodiadau 53

Atodiad 1 – Mentrau a dogfennau Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud â bwyd ysbytai a maeth cleifion 53

Atodiad 2 – Dull archwilio 58

Atodiad 3 – Atebion i'n Harolwg o Gleifion 61

Atodiad 4 – Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Nyrsio Rhagnodedig – Risg Diffyg Maeth 66

Atodiad 5 – Dulliau o gynhyrchu prydau bwyd a dulliau o ddosbarthu prydau bwyd 67

Atodiad 6 – Modelau o wasanaethau arlwy 69

Crynodeb

- 1 Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion. Mae prydau bwyd maethlon, o safon, yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o adsefydlu a gwella cleifion, ac maent yn cyfyngu ar y defnydd diangen o atchwanegiadau maethol. Dylai gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai fod yn gost-effeithiol ac yn ddigon hyblyg i gynnig dewis da o brydau maethlon a all ddarparu ar gyfer gofynion a dewisiadau deietegol penodol cleifion.
- 2 Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol mewn ysbytai yn dibynnu ar gynllunio a chydgyssylltu nifer o brosesau'n gadarn gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Mae llawer o grwpiau staff yn rhan o'r gwaith o ddiwallu anghenion maethol cleifion. Yn ogystal â'r staff gwasanaethau arlwyo sy'n caffael ac yn paratoi'r bwyd, mae staff nyrsio a staff meddygol yn chwarae rhan hanfodol o ran asesu a monitro statws maeth cleifion. Mae angen cynnwys deietegwyr yn y gwaith o gynllunio bwydlenni a rhoi arweiniad a thriniaeth arbenigol i gleifion sydd â phroblemau o ran deiet a maeth. Mae therapyddion lleferydd ac iaith hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran asesu a monitro cleifion sy'n cael anhawster llyncu ynghyd â chymhlethdodau cysylltiedig eraill. Felly mae cydgyssylltu a chyfathrebu effeithiol rhwng yr aelodau hyn o staff yn rhan hanfodol o sicrhau bod cleifion yn cael y maeth sydd ei angen arnynt yn yr ysbyty.
- 3 Mae pwysigrwydd maeth da i helpu gwellhad cleifion wedi cael ei gydnabod mewn nifer o fentrau a dogfennau Llywodraeth y Cynulliad dros y degawd diwethaf (gweler **Atodiad 1** am fanylion). Y fenter ddiweddaraf yw *Llwybr Gofal Maeth Ysbytai*, a gyflwynwyd ar y cyd â siart cofnodi bwyd i Gymru gyfan i gofnodi cymeriant bwyd a diod. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi Penderfyniad 2003 Cyngor Ewrop ar Fwyd a Gofal maeth mewn Ysbytai¹ (**Ffigur 1**).
- 4 Yn ôl gwaith gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2002² roedd rhai enghreifftiau calonogol o arfer da mewn perthynas ag arlwyo mewn ysbytai, megis datblygu dulliau o asesu anghenion deietegol cleifion, cynnwys deietegwyr yn y gwaith o gynllunio bwydlenni a chyflwyno gwasanaethau arlwyo hyblyg yn seiliedig ar wardiau. Fodd bynnag, roedd angen i'r arfer da a welwyd gael ei efelychu'n ehangach. Anaml y gwelwyd ysbytai yn sgrinio cleifion yn systematig i nodi anghenion maethol ar ôl iddynt gael eu derbyn, lleihau achosion o amharu yn ystod amser bwyd i'r eithaf, defnyddio ryseitiau safonol wedi'u costio i sicrhau cysondeb ansawdd a chost a chytuno ar lefel y cyfraniad i gyllidebau arlwyo oddi wrth wasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion.

1 Penderfyniad ResAP (2003)3 ar Fwyd a Gofal Maeth mewn Ysbytai (Mabwysiadwyd gan Bwyllgor y Gweinidogion ar 12 Tachwedd 2003 yn yr 860ain cyfarfod o Ddiprwyon y Gweinidogion) <https://wcd.coe.int/ViewDoc.jsp?id=85747>

2 Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, *Portffolio Ysbytai Aciwt – Adolygiad o ganfyddiadau cenedlaethol ar arlwyo*, Mawrth 2002



Ffigur 1

10 o nodweddion allweddol gofal maeth da


- 1 Caiff pob claf ei sgrinio ar ôl iddo gael ei dderbyn i nodi'r rhai sydd â phroblemau sylweddol o ran maeth neu sy'n wynebu risg o gael problemau maeth. Caiff pob claf ei ail-sgrinio'n wythnosol.
- 2 Mae gan bob claf gynllun gofal, sy'n nodi ei anghenion gofal maeth a'r ffordd y bwriedir eu diwallu.
- 3 Mae'r ysbyty yn cynnwys canllawiau penodol ar wasanaethau bwyd a gofal maeth yn ei drefniadau Llywodraethu Clinigol.
- 4 Mae cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a monitro trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau bwyd.
- 5 Gweithredir amser bwyd wedi'i ddiogelu er mwyn rhoi amgylchedd sy'n helpu cleifion i fwynhau a chael bwyta eu bwyd ac mae pob aelod o staff a phob adran yn parchu amser bwyd wedi'i ddiogelu.
- 6 Mae pob aelod o staff yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau priodol sydd eu hangen i sicrhau y caiff anghenion maethol cleifion eu diwallu ac mae pob aelod o staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ofal maeth a rheoli maeth.
- 7 Mae cyfleusterau ysbytai wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg a chanolbwyntio ar y claf, a rhoi profiad ardderchog o'r gwasanaeth bwyd a gofal maethol, 24 awr y dydd, bob dydd.
- 8 Mae gan yr ysbyty bolisi ar gyfer gwasanaeth bwyd a gofal maeth sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n cael ei reoli yn unol â fframweithiau llywodraethu.
- 9 Darperir gwasanaeth bwyd a gofal maeth i'r claf yn ddiogel.
- 10 Mae'r ysbyty yn cefnogi ymagwedd amlddisgyblaethol tuag at ofal maeth ac yn gwerthfawrogi cyfraniad pob grŵp o staff sy'n gweithio mewn partneriaeth â chleifion a defnyddwyr.

Ffynhonnell: Penderfyniad Cyngor Ewrop, *Bwyd a Gofal Maeth mewn Ysbytai*, 2009 [cyrchwyd <http://www.nrls.npsa.nhs.uk/resources/?entryid45=59865>]

- 5 Ers i adroddiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru gael ei gyhoeddi, mae Stadau Iechyd Cymru wedi paratoi data perfformiad blynyddol ar wasanaethau arlwygo a materion rheoli cyfleusterau eraill ym mhob rhan o GIG Cymru. O un flwyddyn i'r llall mae'r wybodaeth hon wedi amlygu amrywiadau sylweddol rhwng ysbytai o ran costau dyddiol bwydo claf, a phroblemau o hyd o ran gwastraff bwyd. Mae data Stadau Iechyd Cymru hefyd yn awgrymu bod y broses o gyflwyno arfer da cydnabyddedig, megis prydau da wedi'u diogelu, bwydlenni wedi'u costio a dadansoddiad maethol o fwydlenni yn anghyson.
- 6 Felly cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau arlwygo a maeth cleifion mewn ysbytai fel gwaith dilynol ar waith gwreiddiol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Ystyriwyd a yw ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwygo effeithlon ac effeithiol sy'n unol ag arfer da cydnabyddedig. Yn ein harchwiliad, ystyriwyd pob un o'r meysydd allweddol sy'n rhan o gynllunio, darparu a monitro gwasanaethau arlwygo mewn ysbytai (Ffigur 2). Ceir rhagor o fanylion am ein dull o weithredu yn **Atodiad 2**.
- 7 Ein casgliad cyffredinol yw bod y trefniadau arlwygo a'r gofal maeth a ddarperir i gleifion wedi gwella ar y cyfan ers astudiaeth y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2002, ac mae boddhad cleifion yn parhau'n uchel. Fodd bynnag, mae rhagor i'w wneud o hyd i sicrhau bod arfer da cydnabyddedig yn cael ei weithredu'n ehangach, yn enwedig o ran sgrinio maethol a chynllunio gofal, ac er mwyn sicrhau y caiff cyn lleied o fwyd â phosibl ei wastraffu.

- 8 Mae'r adroddiad hwn yn trefnu ein canfyddiadau yn ôl y meysydd canlynol:
- a mae rhan un yn ystyried pa mor dda y caiff anghenion maeth cleifion eu nodi;
 - b mae rhan dau yn ystyried cynllunio bwydlenni, y trefniadau ar gyfer archebu prydau bwyd cleifion, profiadau cleifion o amser bwyd a boddhad cyffredinol cleifion gyda'r bwyd a gânt;
 - c mae rhan tri o'r adroddiad yn ystyried costau cyffredinol arlwyo mewn ysbytai; ac
- d mae rhan pedwar yn ystyried y cynnydd a wnaed o ran datblygu fframweithiau cenedlaethol a lleol clir ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau arlwyo.
- 9 Roedd yr archwiliad yn cynnwys arolwg o brofiadau cleifion o drefniadau arlwyo mewn ysbytai. Daeth cyfanswm o 694 o ymatebion i law a chyfeirir at y canfyddiadau drwy'r gwahanol adrannau o'r adroddiad hwn. Mae **Atodiad 3** yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn a ddywedodd cleifion wrthym ynglŷn â bwyd ysbyty.

Ffigur 2 – Proses arlwyo mewn ysbytai



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru



Fel arfer caiff cleifion eu sgrinio am broblemau maeth ond gellir gwella ansawdd sgrinio maethol

Mae sgrinio maethol wedi gwella ond mae gwybodaeth bwysig yn eisiau yn aml

- 10 Mae ymchwil wedi dangos bod cynifer ag un o bob tri chlaf sy'n oedolyn a dderbynnir i'r ysbyty yn dioddef diffyg maeth. Dylid sgrinio cleifion ar adeg eu derbyn ac mae'n weithdrefn gyflym a syml ar gyfer nodi cleifion sydd â phroblemau maeth, neu'r rhai sy'n wynebu risg o gael problemau o'r fath. Dylai nyrsys bwysu cleifion a'u hasesu i weld a ydynt wedi colli pwysau'n ddiweddar, yn ogystal ag asesu eu gallu i fwyta ac yfed yn ddiogel. Wedyn dylid rhoi cynllun gweithredu clir ar waith ar gyfer cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth.
- 11 Archwiliwyd nodiadau achos 291 o gleifion mewn 23 o ysbytai yng Nghymru ac ym mhob achos canfuwyd bod rhyw fath o sgrinio maethol wedi digwydd. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd offeryn sgrinio maethol mewn un o bob deg achos ac o ganlyniad ni chyfrifwyd sgôr risg. Roedd mesuriadau a gwybodaeth bwysig fel pwysau, taldra, achosion o golli pwysau ac archwaeth yn ddiweddar yn aml yn eisiau. Nododd yr archwiliad nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys achosion lle nad oedd cyfarpar priodol ar gael i staff y ward a diffyg hyfforddiant gloywi ar ddefnyddio'r offer sgrinio neu'r ddogfennaeth asesu.
- 12 Yn bwysig ddigon, nid yw'r wybodaeth a gesglir drwy sgrinio maethol yn cael ei defnyddio gan sefydliadau'r GIG i werthfawrogi'n llawn faint o gleifion â phroblemau maeth sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, effeithiolrwydd y llwybr gofal maeth o ran gwella iechyd maethol ac effaith hynny ar ddarparu gwasanaethau arlwygo a maeth.

Yn achos gormod o gleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau o ran maeth nid oes cynllun gofal ar waith ar eu cyfer ac ni chânt eu cyfeirio i gael asesiad deietegol pellach

- 13 Dylai sgrinio maethol arwain at gynllun gofal i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal maeth sydd ei angen arnynt. Canfuwyd nad oedd cynllun gofal ar waith ar gyfer ychydig dros hanner (52 y cant) o'r cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau o ran maeth. At hynny, cafodd llai na hanner y cleifion (47 y cant) y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth, eu cyfeirio at ddeietegydd.
- 14 Dylai cleifion y nodwyd eu bod yn wynebu risg isel o broblemau maeth ar adeg derbyn gael eu pwysu a'u hail-sgrinio bob wythnos i sicrhau nad oedd eu statws o ran maeth wedi newid. Fodd bynnag, canfuwyd nad oedd hyn yn digwydd bob amser a phan ail-sgriniwyd cleifion, yn aml nid oedd y wybodaeth a gofnodwyd yn ddigon manwl i'w gwneud yn bosibl i newidiadau mewn risg maeth gael eu hasesu'n briodol.

Ni chaiff cymeriant bwyd cleifion sy'n wynebu risg ei gofnodi bob amser

- 15** Mae'n bwysig monitro a chofnodi cymeriant bwyd a diod cleifion sydd â phroblemau maeth. Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad siartiau bwyd i Gymru gyfan ar yr un pryd ag y cyflwynodd lwybr gofal maeth. Golyga hyn y dylai staff nyrsio gofnodi'r holl fwyd a diod a gymerir drwy'r dydd mewn ffordd systematig a chyson ym mha ysbyty bynnag mae'r claf.
- 16** Er bod staff nyrsio yn mynd ati i fonitro cymeriant cleifion, canfuwyd ar rai wardiau nad oedd y siartiau bwyd bob amser wedi'u cwblhau, ac mewn rhai achosion roedd y staff nyrsio yn dibynnu ar gleifion yn dweud wrthynt beth roeddent wedi'i fwyta er mwyn cwblhau'r siartiau bwyd.

Mae'r rhan fwyaf o ysbytai yn cynnig dewis priodol o brydau bwyd ac mae cleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ar y cyfan, ond mae angen gwella'r asesiad maethol o fwydlenni a phrofiadau cleifion o amser bwyd

Mae'r rhan fwyaf o ysbytai yn cynnig dewis priodol o brydau bwyd i gleifion ond nid yw pob bwydlen wedi cael ei hasesu o ran maeth

- 17** Roedd gan y rhan fwyaf o ysbytai yr ymwelwyd â hwy fwydlenni a oedd yn cynnig dewis priodol o fwyd i gleifion. Canfuwyd hefyd fod deietegwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio bwydlenni ym mhob ysbyty. Fodd bynnag, er gwaethaf ymwneud o'r fath gan ddeietegwyr, nid oedd pob bwydlen

ysbyty wedi cael ei hasesu o ran maeth i sicrhau bod ei chynnwys maethol yn briodol i ddiwallu anghenion cleifion.

- 18** Dylai safoni'r fwydlen o fewn bwrdd iechyd yn ei gwneud yn haws i gaffael bwyd am y pris mwyaf cystadleuol ac i gostio ryseitiai a sicrhau bod cleifion yn cael bwyd o'r un safon ble bynnag y maent. Ar hyn o bryd, dim ond tri bwrdd iechyd sy'n defnyddio bwydlen safonol ym mhob un o'u hysbytai. Mae'r gweddill yn dal i ddefnyddio bwydlenni gwahanol a ryseitiai a etifeddwyd gan ymddiriedolaethau'r GIG a'u rhagflaenodd.

Mae lle i wella systemau archebu prydau bwyd mewn nifer o ysbytai

- 19** Mae cyrff y GIG yn defnyddio amrywiaeth o dulliau o gynhyrchu prydau bwyd a gwahanol fodolau o ddarparu gwasanaeth i'r wardiau. Ym mhob sefydliad yr ymwelwyd ag ef, mae'r broses o gofnodi dewisiadau prydau bwyd cleifion ar bapur, sy'n aml yn mynd â llawer o amser ac adnoddau.
- 20** Er bod y rhan fwyaf o gleifion yn cael y pryd o fwyd a archebwyd ganddynt, canfuwyd ar rai wardiau yr ymwelwyd â hwy nad oedd cleifion bob amser yn cael dewis eu pryd eu hunain, a hynny am na chawsant gyfle i gwblhau'r ffurflen archebu bwyd, neu am fod staff y ward wedi archebu bwyd ar ran y cleifion. O ganlyniad, gwelwyd rhai cleifion a oedd yn cael prydau bwyd nad oeddent yn addas at eu hanghenion na'u dymuniadau. Er bod angen i rai ysbytai adolygu hanfod eu systemau archebu, mewn llawer achos gallai gwell cyfathrebu rhwng staff nyrsio ac arlwyo wella prosesau archebu a hyrwyddo gwell dewis o fwyd i gleifion.



Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ond dywedodd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau

- 21** Mae'r rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i'n harolwg yn fodlon ar y bwyd a gânt yn yr ysbyty ar y cyfan. Dywedodd dros hanner (55 y cant) wrthym fod y bwyd a roddwyd iddynt yn dda neu'n ardderchog a dywedodd 27 y cant arall fod y bwyd yn dderbyniol.
- 22** Mae gan y rhan fwyaf o ysbytai drefniadau ar waith i gynnig byrbrydau ac mae sawl un wedi dechrau bwydlenni o fyrbrydau. Fodd bynnag, gall gweithdrefnau ar gyfer archebu byrbrydau amrywio rhwng ysbytai o fewn yr un bwrdd iechyd. Roedd prif nyrsys yn ffyddiog bod y trefniadau ar gyfer archebu byrbrydau yn diwallu anghenion eu cleifion, ond rhoddwyd darlun llai cadarnhaol yn yr ymatebion i'n harolwg o gleifion. Nododd tair rhan o bump o ymatebwyr nad oedd byrbrydau bron byth neu fyth ar gael. Awgryma hyn nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio'n dda, naill ai o ran darparu byrbrydau, nac o ran ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael.

Mae'r amgylchedd lle mae cleifion yn bwyta eu bwyd wedi gwella'n sylweddol

- 23** Hyd yn oed cyn i'r bwyd gyrraedd y ward, mae'n bwysig bod staff yn paratoi amgylchedd y ward er mwyn i gleifion gael eu hannog i fwyta eu bwyd. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn bwyta eu prydau yn y gwely neu wrth ymyl y gwely a dim ond nifer fach sy'n cael y cyfle i fwyta eu pryd mewn amgylchedd cymunedol, yn bennaf am nad oes cyfleusterau ar gael i wneud hyn.

- 24** Yn 2002, canfu'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru fod llawer o gleifion yn bwyta eu prydau ynghanol gwastraff, megis pedyll gwely heb eu gwagio a sbwriel arall ar fyrddau ymyl gwely, a oedd nid yn unig yn annymunol i'r claf unigol ond a oedd hefyd yn effeithio ar gleifion cyfagos. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol gyda'r rhan fwyaf o wardiau yn cymryd camau rhagweithiol i glirio byrddau ymyl gwely cyn pob amser bwyd. Dywedodd bron bob claf (94 y cant) a ymatebodd i'n harolwg wrthym fod yr ardal lle roeddent yn bwyta eu bwyd bob amser yn lân ac yn daclus neu'n lân ac yn daclus y rhan fwyaf o'r amser.

Mae egwyddor amser bwyd wedi'i ddiogelu yn cael ei hymgorffori'n fwyfwy ond gellid gwneud mwy ar rai wardiau

- 25** Mae amser bwyd wedi'i ddiogelu³ yn rhan bwysig o greu amgylchedd ward sy'n annog cleifion i fwyta a mwynhau eu bwyd. Mae pob un o sefydliadau GIG Cymru wedi sefydlu polisïau amser bwyd wedi'i ddiogelu. Gwelodd archwilwyr gryn ymrwymiad i amser bwyd wedi'i ddiogelu ymhlith y rhan fwyaf o staff y ward, gyda llawer ohonynt yn barod i herio meddygon, criwiau ambiwlans, ymwelwyr ac eraill os oeddent wedi mynd at ymyl gwelyau neu wedi amharu ar gleifion yn ddiangen yn ystod amser bwyd. Fodd bynnag, dangosodd ein hymweliadau â wardiau y gall cydymffurfiaeth â'r polisïau hyn amrywio'n fawr gydag amser bwyd yn cyd-daro â nifer o ddigwyddiadau eraill, megis glanhau, rowndiau rhoi moddion, triniaeth ffisiotherapi ac adolygiadau fferyllol, yn ogystal ag achosion o rai cleifion yn gadael y ward i gael profion diagnostig.

³ Amser bwyd wedi'i ddiogelu yw cyfnodau lle mae pob gweithgarwch nad yw'n weithgarwch brys yn dod i ben ar wardiau ysbytai er mwyn rhoi cyfle i gleifion fwyta eu pryd o fwyd heb i neb amharu arnynt yn ddiangen, a phan fydd staff nyrsio yn gallu rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i fwyta.

Nid yw pob claf yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod amser bwyd

- 26** Yn ystod ein hymweliadau â wardiau, gwelsom enghreifftiau da o staff y ward yn helpu cleifion i baratoi ar gyfer amser bwyd. Fodd bynnag, o'r cleifion hynny a ymatebodd i'n harolwg yr oedd angen cymorth arnynt i fod yn gysurus cyn bwyta, roedd llai na hanner wedi cael y cymorth angenrheidiol.
- 27** Roedd tri chwarter (76 y cant) o gleifion a ddywedodd wrthym fod angen cymorth arnynt i fwyta eu bwyd bob amser yn cael y cymorth hwnnw, naill ai gan staff nyrsio neu gan gyfeillion a theulu. Fodd bynnag, dywedodd nifer fach o gleifion wrthym eu bod wedi gorfod aros yn rhy hir i gael cymorth ar ôl iddynt gael eu pryd bwyd. Dywedodd nifer fach o gleifion wrthym hefyd fod angen cymhorthion i fwyta, megis cyllyll a ffyrc wedi'u haddasu, giardiaiu plât a matiau gwrthslip arnynt, ond nad oeddent yn eu cael bob amser.
- 28** Caiff system hambwrdd coch⁴ ei defnyddio yn y rhan fwyaf o ysbytai i nodi'n gyflym y cleifion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod amser bwyd oherwydd anawsterau bwyta, neu am nad ydynt yn bwyta digon. Mae'r system yn dibynnu ar y ffaith bod staff nyrsio ac arlwygo yn deall yr hyn sydd ei angen wrth weithredu system hambwrdd coch ac yn cyfathrebu â'i gilydd a nodwyd ychydig o enghreifftiau lle nad oedd y system yn gweithio cystal â'r bwriad am nad oedd y staff wedi cyfathrebu â'i gilydd. Ar wardiau lle nad oedd y system hambwrdd coch yn cael ei defnyddio, roedd staff nyrsio yn aml wedi cyflwyno rhai arferion arloesol i nodi cleifion yr oedd angen cymorth arnynt. Un o fanteision rhai o'r systemau amgen hyn oedd eu bod wrth ymyl gwelyau cleifion drwy'r amser (yn hytrach na chael eu defnyddio yn ystod amser bwyd yn unig) a'u bod yn

gwneud i aelodau eraill o staff, megis meddygon, fod yn ymwybodol o broblemau maeth heb fod angen iddynt gyfeirio at nodiadau cleifion.

Mae angen i reolwyr gael ffocws cliriach ar gostau gwasanaethau arlwygo er mwyn deall yr amrywiadau a geir yn sefydliadau'r GIG yn well a lleihau faint o fwyd a wastreffir, sy'n dal i fod annerbyniol o uchel ar lawer ward

Mae'r wybodaeth ariannol am wasanaethau arlwygo'n wael fel arfer a lle mae ar gael mae'n dangos amrywiadau sylweddol o ran costau o fewn a rhwng sefydliadau'r GIG

- 29** Nododd adroddiad 2002 y Comisiwn Archwilio yng Nghymru fod angen gwella ansawdd ac argaeledd y wybodaeth ariannol am wasanaethau arlwygo. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim tystiolaeth yn dangos bod gwelliannau wedi'u gwneud.
- 30** Yn 2002, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) fel modd i ddarparu gwybodaeth gymharu i'r gwasanaeth am amrywiaeth o ddata ar ystâd a chyfleusterau'r GIG. Mae Ystadau Iechyd Cymru, sy'n rheoli'r EFPMS, wedi bod yn pryderu ers amser am gywirdeb, cysondeb a dibynadwyedd peth o'r data a gyflwynwyd iddo.
- 31** O ystyried y pryderon hyn, casglwyd ein data ein hunain ar gostau arlwygo gennym. Er bod y rhan fwyaf o gyrff y GIG yn gallu darparu'r data ariannol angenrheidiol yn y pen draw, nid oedd yn broses syml ac roedd angen i'r rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG ailgyflwyno eu data

⁴ Mae'r hambwrdd coch yn tynnu sylw staff y ward at gleifion sydd angen cymorth gan sicrhau na chaiff prydau bwyd cleifion eu casglu'n rhy gynnar ac y caiff cymeriant bwyd ei fonitro a'i gofnodi.



ariannol o leiaf unwaith i gywiro camgymeriadau. Roedd cost gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai yr ymwelwyd â hwy yn amrywio'n fawr gyda chost gwasanaethau arlwyio cleifion fesul diwrnod claf yn amrywio o £5.99 i £17.54. Nid yw'r gwahanol fodolau o wasanaeth o reidrwydd yn egluro'r amrywiadau mewn costau arlwyio, er bod costau yn uwch yn y rhan fwyaf o ysbytai sy'n defnyddio cynorthwyr arlwyio ar y ward. Nodwyd hefyd wahaniaethau sylweddol mewn costau darparu rhwng ysbytai, a all fod yn gysylltiedig â chynnwys bwydlenni a dull cynhyrchu, er bod angen gwneud mwy o waith i ddeall y gwahaniaethau hyn. Yn ddi-ddorol ddigon canfuwyd nad oedd perthynas amlwg rhwng y swm a wariwyd ar fwyd cleifion a sgoriau boddhad cleifion.

Mae gwasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn cael cymhorthdal, a hynny'n ddiarwybod yn y rhan fwyaf o achosion

- 32** Fel arfer mae ysbytai yn darparu gwasanaethau arlwyio i staff ac ymwelwyr a chaiff yr incwm a gynhyrchir gan y gwasanaethau arlwyio nad ydynt ar gyfer cleifion, ynghyd â'r incwm sy'n dod o letygarwch a pheiriannau gwerthu fel arfer ei ddefnyddio i wrthbwyo costau arlwyio cyffredinol. Nid oedd dim un o gyrff GIG Cymru wedi datblygu polisi ar gymhorthdal ar gyfer gwasanaethau arlwyio ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion ac nid oeddent ychwaith wedi cytuno ar y ffordd y dylai incwm gyfrannu i wrthbwyo costau arlwyio ym mhob ysbyty neu ar y cyd drwy'r sefydliad cyfan.
- 33** Mae ein data yn dangos bod gwasanaethau arlwyio ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion mewn ysbytai aciwt yng Nghymru yn costio £12 miliwn yn 2009-10. Fodd bynnag, roedd cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd gan yr ysbytai hyn ond yn ddigon i adennill 80 y cant o'r costau hyn. Mae hyn yn cyfateb i

gymhorthdal o tua £2.5 miliwn – sef yr hyn a oedd yn cyfateb i wario £0.92 yn ychwanegol fesul claf y dydd ar wasanaethau arlwyio cleifion. Mater i sefydliadau unigol y GIG yw penderfynu a ddylai gwasanaethau arlwyio ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion gael cymhorthdal. Ond yn yr hinsawdd ariannol gyfredol gallai fod yn rhesymol disgwyl i'r gwasanaethau ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion o leiaf adennill costau.

Mae'r lefelau o fwyd a wastrefir yn dal i fod yn annerbyniol o uchel ar lawer ward

- 34** Mae lleihau faint o fwyd a wastrefir yn bwysig o ran rheoli costau gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai. Awgryma data a gasglwyd gan Stadau Iechyd Cymru nad oedd wyth y cant o'r holl brydau bwyd i gleifion wedi cael eu gweini. Fodd bynnag, ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy canfuwyd bod lefelau gwastraff o brydau bwyd nas gweinwyd dipyn yn uwch sef tua 15 y cant, gydag amrywiadau mawr rhwng wardiau ac ysbytai. Nid yw'n amlwg pam bod cymaint o wahaniaeth mewn cyfraddau gwastraff rhwng ein canfyddiadau ni a'r rhai a gyflwynwyd i Stadau Iechyd Cymru, er bod diffiniadau lleol o'r hyn sy'n gyfystyr â phryd o fwyd heb ei weini yn debygol o chwarae rhan yn hynny o beth.
- 35** Roedd cost y prydau bwyd nas gweinwyd ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy tua £1.5 miliwn. Pe bai'r wardiau hynny yn lleihau gwastraff prydau bwyd nas gweinwyd i lefelau'r wardiau a oedd yn perfformio orau yn ein sampl, gellid bod wedi gwneud arbedion o fwy na £758,000. Gwelwyd hefyd lefelau sylweddol o wastraff ar blatiau. Er ei bod yn anodd mesur hynny, gallai lleihau gwastraff bwyd na cafodd ei fwyta ar blatiau cleifion arwain at arbedion sylweddol eraill. Er nad yw'n ymarferol lleihau gwastraff bwyd i ddim, dylid gosod targedau heriol priodol fel modd i ganolbwyntio sylw rheolwyr ar y broblem.

Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu fframweithiau cenedlaethol a lleol cliriach ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau arlwy, a sicrhau y caiff y rhain eu llywio gan farn cleifion

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu nifer o fentrau polisi sydd â'r nod o wella arlwy mewn ysbytai a maeth cleifion

- 36 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn amlwg wedi cydnabod pwysigrwydd arlwy a maeth fel rhan hanfodol o'r gofal a roddir i gleifion yn yr ysbyty. Dros y degawd diwethaf, bu nifer o fentrau polisi gyda'r nod o wella arlwy a maeth cleifion mewn ysbytai.
- 37 Yn fwy diweddar, cyhoeddwyd *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*. Mae'r safon newydd ar gyfer bwyd ysbyty bellach yn dwyn ynghyd y llwybr gofal maeth a fframwaith maeth ac arlwy ysbytai. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith a gyhoeddwyd yn 2002 wedi cael ei adolygu ac mae angen ei ddiweddarau er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n llawn fentrau polisi diweddar y GIG, y strwythurau newydd yng Nghymru a Phenderfyniad Cyngor Ewrop ar Fwyd a Gofal Maeth mewn Ysbytai.

Mae rhai mentrau polisi sydd â'r nod o wella maeth cleifion yn dechrau gwneud gwahaniaeth a gellid gwireddu mwy o fanteision pe baent yn cael eu dwyn ynghyd o dan un fframwaith

- 38 Er nad yw gwahanol fentrau Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthdynnu â'i gilydd, mae rhywfaint o ddiffyg cyswllt rhyngddynt a byddai'n fuddiol pe baent yn cael eu dwyn ynghyd yn un fframwaith cydlynol ar gyfer arlwy a maeth mewn ysbytai. Mae'r fframwaith gwreiddiol a ddatblygwyd yn 2002 yn rhoi'r sail i hyn.
- 39 Un canfyddiad calonogol o'n gwaith oedd y dystiolaeth bod mentrau polisi yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r fenter Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu wedi sbarduno llawer o brif nyrsys i ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb am faeth cleifion a gwelwyd llawer o enghreifftiau o nyrsys yn cymryd camau i hyrwyddo pwysigrwydd gofal maeth.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG yn dal i ddatblygu eu strategaethau ar gyfer gwasanaethau arlwy a maeth cleifion

- 40 Cymysg yw'r darlun presennol o ran cynllunio gwasanaethau arlwy mewn ysbytai yn strategol. Mewn rhai o sefydliadau'r GIG, ceir strategaethau, polisïau a gweithdrefnau sefydledig sy'n cael eu deall yn dda, ond mae sefydliadau eraill yn dal wrthi'n datblygu'r rhain.
- 41 Yn sgîl ad-drefnu'r GIG, canfuwyd nad oedd llawer o'r byrddau iechyd newydd wedi cysoni trefniadau cynllunio strategol a gweithredol eu hymddiriedolaethau rhagflaenol eto o ran gwasanaethau arlwy a maeth cleifion. Golyga hyn fod gwahanol fodolau o wasanaeth a gwahanol gynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer arlwy ar waith mewn



rhai byrddau iechyd. Roedd hwn yn ffactor a gyfrannodd at rai o'r gwahaniaethau mewn arfer a welodd yr archwilwyr.

- 42 Ar nodyn mwy cadarnhaol, canfu'r archwilwyr fod amrywiaeth ehangach o staff dros y blynyddoedd diwethaf yn dod yn rhan o waith cynllunio gwasanaethau arlwygo a maeth cleifion yn lleol. Roedd gan bob un o sefydliadau'r GIG grŵp maeth ac arlwygo amlddisgyblaethol ar waith, a oedd yn goruchwylio polisi maeth a datblygiad gwasanaethau arlwygo.

Gallai atebolrwydd gweithredol am arlwygo a maeth fod yn gliriach mewn rhai cyrff iechyd

- 43 Canfuwyd bod rhai o gyrff y GIG wedi dynodi un cyfarwyddwr ar lefel y bwrdd i fod yn gyfrifol am arlwygo, maeth a hylendid gyda'r Prif Weithredwr dros Nyrsio yn ymgymryd â'r rôl. Fodd bynnag, mewn byrddau iechyd eraill roedd cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol am arlwygo a maeth cleifion wedi'u rhannu. Nid yw'r ffaith bod mwy nag un cyfarwyddwr gweithredol yn gyfrifol am arlwygo a maeth yn broblem ynddi'i hun o reidrwydd, cyhyd â bod trefniadau cadarn ar waith i oruchwylio materion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau mewn ffordd gydgyssylltiedig. Yn gyffredinol, lle roedd cyfrifoldebau gweithredol am arlwygo a maeth wedi'u rhannu, ein teimlad oedd bod angen i gyrff y GIG wneud rhagor i osgoi'r risg o gynllunio a rheoli'r gwasanaethau hyn mewn ffordd ddatgysylltiedig, a chael eglurhad ynglŷn â llinellau atebolrwydd.

Dim ond gwybodaeth gyfyngedig y mae byrddau'r GIG yn ei chael am y ffordd y caiff gwasanaethau arlwygo eu darparu ac am eu perfformiad a materion sy'n ymwneud â maeth cleifion

- 44 Dangosodd ein gwaith fod lle i wella'r wybodaeth yr oedd aelodau Bwrdd yn ei derbyn am berfformiad gwasanaethau arlwygo a maeth. Dim ond adroddiad blynyddol ar eu gwasanaethau arlwygo a maeth cleifion y mae'r mwyafrif o Fyrddau'r GIG yn ei gael ar y mwyafrif. Nid yw'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am feysydd pwysig megis cynnydd wrth weithredu llwybr gofal maeth Cymru gyfan, y sefyllfa o ran cymorthdalau a faint o fwyd a gaiff ei wastraffu. Hefyd methodd yr adroddiadau â nodi risgiau allweddol a all effeithio ar y gwasanaeth arlwygo megis problemau o ran ôl-groniad o waith cynnal a chadw a chysoni'r gwahanol systemau cynhyrchu bwyd.
- 45 Fel arfer, nid yw sefydliadau'r GIG yn gwneud defnydd priodol o'r data a gynhyrchir gan Stadau Iechyd Cymru drwy'r system EFPMS. Er gwaethaf problemau o ran ansawdd data, mae data'r EFPMS yn cynnwys nifer o fesurau perfformiad defnyddiol a fyddai'n rhoi trosolwg o wasanaeth arlwygo sefydliad i aelodau ei fwrdd.

Mae angen datblygu dulliau mwy cynhwysfawr a chydgyssylltiedig o geisio barn cleifion a'u teuluoedd a'u defnyddio i helpu i gynllunio a datblygu gwasanaethau arlwyo

- 46** Cleifion a'u teuluoedd fwy na thebyg yw'r ffynhonnell bwysicaf o wybodaeth am ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth. Dylai cyrff y GIG geisio barn cleifion yn rheolaidd. Ceir nifer o ddulliau o gasglu barn cleifion ar fwyd a threfniadau arlwyo mewn ysbytai. Fodd bynnag, fel arfer mae gan staff nyrsio ac adrannau arlwyo ddulliau gwahanol o gasglu barn nad ydynt wedi'u rhannu. Collir cyfleoedd i gasglu ynghyd wybodaeth am brofiad cleifion yn un lle er mwyn llywio gwaith cynllunio a datblygu yn y dyfodol.
- 47** Roedd aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael eu cynrychioli ar grwpiau cynllunio arlwyo a maeth byrddau iechyd yn aml. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol ac mae'n rhoi cyfle i'r Cynghorau Iechyd Cymuned rannu gwybodaeth drwy eu gwaith monitro rheolaidd ar amgylchedd cleifion. Roedd cynrychiolwyr cleifion hefyd yn cael eu cynnwys ar sawl grŵp cynllunio gweithredol arlwyo a maeth ond nid oedd hyn yn nodweddiadol.

Argymhellion

Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu

- 1** Er bod tystiolaeth bod llawer o ysbytai wedi gwella trefniadau i sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu, nid yw rhai o ofynion allweddol Llwybr Gofal Maeth Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu cyflawni. Mae angen i brosesau sgrinio wella am fod gwybodaeth bwysig am statws maeth cleifion yn aml yn eisiau. Nid yw cynlluniau gofal bob amser ar waith i gleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth, ac mae angen ffordd fwy cynhwysfawr a chyson o fonitro cymeriant bwyd a diod cleifion.
- Er mwyn sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion mewn ysbytai eu diwallu argymhellwn y canlynol:**
- a** dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu a chyhoeddi dogfennaeth nyrsio safonol i Gymru gyfan er mwyn hyrwyddo prosesau sgrinio maethol a chynllunio gofal cyson, ac er mwyn helpu i sicrhau bod meysydd pwysig, megis iechyd y geg, yn cael eu hystyried yn briodol;
 - b** dylai cyrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae'n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi'n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy'n wynebu risg o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu;



- c** dylai cyrff y GIG archwilio cydymffurfiaeth â phob agwedd ar y llwybr gofal maeth yn rheolaidd ar bob un o'u safleoedd a rhannu canlyniadau'r ymarferion monitro â phob grŵp staff perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau arlwygo a maeth cleifion;
 - d** lle nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maeth, dylai cyrff y GIG ganfod y rhesymau dros hyn, a rhoi cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i'r afael â'r broblem; dylai hyn gynnwys rhoi hyfforddiant angenrheidiol i staff; a
 - e** dylai fod gan gyrff y GIG drefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd; dylai byrbrydau fod yn rhan o'r trefniadau hyn a dylai cleifion gael gwybod pa fyrbrydau sydd ar gael iddynt, a phryd.
- 2** Er bod deietegwyr fel arfer yn ymwneud â'r gwaith cyffredinol o gynllunio bwydlenni, nid yw pob bwydlen yn cael ei hasesu o ran maeth. **Er mwyn sicrhau bod pob bwydlen yn hyrwyddo maeth da i gleifion argymhellwn y canlynol:**
- a** dylai cyrff y GIG gymryd camau i sicrhau bod pob bwydlen a ddefnyddir yn eu hysbytai wedi cael ei hasesu o ran maeth gan ddeietegwyr; a
 - b** dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu dichonolrwydd cyflwyno cronfa ddata genedlaethol o fwydlenni wedi'u hasesu o ran maeth fel modd i osgoi dyblygu ymdrechion ar draws sefydliadau'r GIG a gwneud y defnydd gorau o adnoddau deieteg cyfyngedig.

Gwella profiad cleifion o amser bwyd

- 3** Er i'n gwaith archwilio ddangos bod llawer o gleifion yn fodlon ar drefniadau arlwygo mewn ysbytai, nid oedd hyn i'w ganfod ymhob man a gallai'r rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG wneud mwy i sicrhau bod profiad cleifion o amser bwyd ar eu holl wardiau yn gadarnhaol. **Er mwyn sicrhau gwelliannau o hyd yn y maes pwysig hwn, argymhellwn fod cyrff y GIG yn:**
- a** sicrhau bod eu bwydlenni yn cynnig dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i gleifion;
 - b** adolygu eu harferion ar lefel ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i fod yn gyfforddus cyn cael eu bwyd, ac yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r pryd o fwyd gael ei weini; a
 - c** pharhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd i bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd.

Rheoli costau'r gwasanaeth arlwygo

- 4** Tua wyth mlynedd ar ôl i'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru nodi bod angen gwella gwybodaeth ariannol mewn perthynas â gwasanaethau arlwygo, mae cyfyngiadau o hyd o ran y data hwn. Mae hyn yn effeithio ar allu sefydliadau'r GIG i gynllunio a monitro'n briodol y ffordd y caiff eu gwasanaethau arlwygo eu darparu. **Er mwyn gwella ansawdd gwybodaeth ariannol am arlwygo argymhellwn y canlynol:**

- a dylai Llywodraeth y Cynulliad, drwy Stadau lechyd Cymru, ddatblygu model clir ar gyfer costio gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, sy'n cael ei gymhwyso'n gyson ym mhob un o sefydliadau'r GIG er mwyn rhoi cyfle i wneud cymariaethau ystyrlon rhwng costau arlwyo mewn ysbytai ledled Cymru; a
 - b dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw.
- 5 Er bod tystiolaeth bod pob un o gyrff y GIG yn mabwysiadu mesurau i reoli costau gwasanaethau arlwyo, mae cryn amrywiaeth o ran arfer a lle i ddefnydd mwy cyson o arfer da cydnabyddedig. **Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o'r canlynol:**
- a ryseitiau safonol wedi'u costio;
 - b lwfans bwyd a diod dyddiol i gleifion; a
 - c chontractau arlwyo lleol safonol ar gyfer yr un cynhyrchion neu gynhyrchion tebyg ym mhob un o'u hysbytai.
- 6 Mae lefel y gwastraff bwyd ar lawer o wardiau ysbyty yng Nghymru yn annerbyniol o uchel a dylai lleihau gwastraff y gellir ei osgoi gael ei ystyried yn ffordd allweddol o helpu i reoli costau arlwyo. **Er mwyn gwella perfformiad mewn perthynas â gwastraff bwyd ysbyty, argymhellwn y canlynol:**
- a dylid pennu targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd; fel canllaw dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweinwyd yn fwy na 10 y cant;
 - b dylai cyrff y GIG fonitro gwastraff bwyd yn rheolaidd yn unol â chanllawiau clir ar yr hyn sy'n bryd o fwyd heb ei weini, a dylai'r wybodaeth hon gael ei ddefnyddio i lunio cymariaethau ystyrlon yn lleol ac yn genedlaethol;
 - c dylai'r gwaith o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff a welir, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau a phrosesau sy'n achosi'r gwastraff; a
 - d dylai cyrff y GIG bwysleisio i'w staff fod rheoli gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb ar bawb a dylai staff arlwyo a staff wardiau gydweithio i fynd i'r afael â'r broblem.
- 7 Ychydig o ysbytai yng Nghymru sy'n cynhyrchu digon o incwm i adennill holl gostau gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion ond ychydig o gyrff y GIG sydd wedi cytuno ar bolisi ynglŷn â chymorthdalau. **Argymhellwn y dylai cyrff y GIG:**
- a pennu polisiau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalau bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau; a
 - b monitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol.



Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol

- 8** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno lluo o fentrau polisi mewn perthynas ag arlwyio mewn ysbytai a maeth cleifion dros yr wyth mlynedd diwethaf. Yn lleol, ceir anghysondeb o ran bodolaeth strategaethau a chynlluniau cyfoes i weithredu'r polisiâu cenedlaethol hyn ac mae angen i drefniadau sawl un o gyrff y GIG gael eu cysoni yn sgîl ad-drefnu'r GIG.
- Er mwyn atgyfnerthu'r ffordd y caiff gwasanaethau arlwyio eu darparu a'r ffordd y caiff arfer da cydnabyddedig ei roi ar waith argymhellwn y canlynol:**
- a** dylai Llywodraeth y Cynulliad ddwyn ynghyd yr holl ganllawiau polisi perthnasol mewn perthynas ag arlwyio a maeth cleifion mewn ysbytai yn un fframwaith cenedlaethol wedi'i ddiweddarau; dylai fframwaith cenedlaethol wedi'i ddiweddarau gael ei ddatblygu gan grŵp polisi amlddisgyblaethol ar gyfer arlwyio a maeth sy'n dwyn ynghyd staff o wahanol ganghennau o Lywodraeth y Cynulliad sydd â chyfrifoldebau am y gwasanaethau hyn;
 - b** dylai gyrff y GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau a gweithdrefnau cyfoes sy'n nodi'r trefniadau lleol ar gyfer gweithredu gofynion polisi cenedlaethol a sicrhau bod gwasanaethau arlwyio a maeth, hyd y gellir, wedi'u safoni ar draws sefydliadau'r GIG, yn enwedig lle mae ad-drefnu'r GIG wedi dwyn ynghyd nifer o wahanol fodolau gwasanaeth o dan un sefydliad; a
 - c** dylai gyrff y GIG sicrhau fod cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol dros arlwyio a maeth wedi'u diffinio'n glir, a lle mae dau neu fwy o gyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol, dylai fod trefniadau penodol ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn ffordd gydgyssylltiedig.
- 9** Dylai Ystadau Iechyd Cymru gynnal cronfa ddata o wybodaeth am berfformiad gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai ledled Cymru o fewn ei EFPMS. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y Cynulliad na chyrff y GIG yn gwneud defnydd digonol o'r data hwn i adolygu cost-effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaethau arlwyio. Mae hyn yn rhannol oherwydd pryderon am ansawdd peth o'r data a gyflwynir i Stadau Iechyd Cymru gan gyrff y GIG. **Argymhellwn y canlynol:**
- a** dylai Llywodraeth y Cynulliad hyrwyddo pwysigrwydd data'r EFPMS fel dull o fonitro'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a sicrhau bod digon o ganllawiau a hyfforddiant ar ddiffiniadau o ddata ar gael i staff yng nghyrff y GIG sy'n cyflwyno gwybodaeth;
 - b** dylai staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud ag arlwyio a maeth wneud mwy o ddefnydd ar y cyd o ddata'r EFPMS, ochr yn ochr â data a gasglwyd gan yr archwiliadau hanfodol o Hanfodion Gofal, fel ffordd o ddarparu gwybodaeth am weithredu amcanion polisi cenedlaethol yn lleol; a
 - c** dylai gyrff y GIG sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ddata'r EFPMS fel ffordd o reoli a monitro eu gwasanaethau arlwyio a maeth.

- 10** Cyfyngedig yw'r wybodaeth a gaiff byrddau cyrff y GIG, a'u his-bwyllgorau am berfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth yn eu sefydliad. Lle darperir gwybodaeth, nid yw bob amser yn cael ei dwyn ynghyd yn effeithiol, ac fel y cyfryw cyfyngedig yw gallu aelodau'r byrddau i weld y darlun llawn o ran arlwyo a maeth. **Er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth am arlwyo a maeth cleifion i aelodau'r bwrdd, argymhellwn y dylai cyrff y GIG:**
- a** datblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata meincnodi EFPMS; a
 - b** choladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn.
- 11** O fewn cyrff unigol y GIG mae'n debygol y bydd nifer o ddulliau gwahanol o gasglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo a maeth a gânt. **Mae angen dwyn ynghyd y wybodaeth hon yn fwy effeithiol er mwyn llywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio ac argymhellwn y dylai cyrff y GIG:**
- a** sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am farn cleifion ar wasanaethau arlwyo rhwng prif nyrsys a'r gwasanaeth arlwyo;
 - b** dangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu eu gwasanaethau arlwyo a maeth; a
 - c** phennu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth.




Rhan 1 – Caiff cleifion eu sgrinio fel arfer am broblemau maeth ond gellir gwella ansawdd sgrinio maethol

- 1.1** Mae sgrinio maethol da yn bwysig o ystyried bod ymchwil wedi dangos y gall 'diffyg maeth' effeithio ar bron un o bob tri chlaf a dderbynnir i'r ysbyty⁵. Mae sgrinio maethol yn weithdrefn gyflym a syml ar gyfer nodi cleifion sydd â phroblemau maeth sylweddol, neu'r rhai sy'n wynebu risg sylweddol o gael problemau o'r fath. Dylid sgrinio cleifion o fewn 24 awr ar ôl eu derbyn gan ddefnyddio offeryn sgrinio maethol wedi'i ddilysu. Fel rhan o'r broses sgrinio, dylai staff gofal iechyd, nyrsys fel arfer, bwyso cleifion a'u hasesu am unrhyw achosion o golli pwysau'n ddiweddar, yn ogystal â'u gallu i fwyta ac yfed yn ddiogel. Dylai cynllun gweithredu clir gael ei roi ar waith o ran cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth.
- 1.2** Ym mis Tachwedd 2007, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud argymhellion ar gyfer grymuso prif nyrsys â'r awdurdod, y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wella amgylchedd y ward a phrofiad y claf, gan gynnwys maeth cleifion. Roedd argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn seiliedig ar argymhellion y Grŵp Bwyd a Diod mewn Ysbytai, a oedd, ymhlith pethau eraill, wedi argymhell datblygu llwybr gofal maeth i Gymru gyfan. Cyflwynwyd y llwybr yn ystod Haf 2009 a nododd ddilyniant y camau gweithredu yr oedd angen eu cymryd wrth sgrinio cleifion am broblemau maeth (Ffigur 3).

⁵ C. A. Russell a M. Elia, *Nutrition Screening Survey in the UK in 2008*, Cymdeithas Maeth Parenterol ac Enterig Prydain, 2009

Ffigur 3 – Llwybr gofal maeth Cymru gyfan



Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru



Mae sgrinio maethol wedi gwella ond mae gwybodaeth bwysig yn eisiau yn aml

- 1.3** Yn 2002, canfu'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru fod pedwar o bob pum ysbyty yng Nghymru wedi datblygu offer arfer sgrinio maethol ond dim ond un o bob pedwar a oedd yn sgrinio cleifion â risg o ran maeth. Ers hynny, mae sgrinio maethol wedi cael ei weithredu ym mhob ysbyty ac er bod y gwelliant hwn i'w groesawu, mae lle i wella ymhellach.
- 1.4** Ar bob un o'r 59 o wardiau yr ymwelwyd â hwy, adolygwyd pum set o nodiadau achos gennym, ar gyfartaledd, er mwyn asesu ansawdd y broses sgrinio maethol. Edrychwyd yn benodol i weld a oedd gwybodaeth wedi'i chofnodi am bwysau, taldra, mynegai màs y corff (cymhareb rhwng taldra a phwysau), achosion diweddar o golli pwysau'n anfwriadol, archwaeth ar y pryd, cymeriant deietegol 'arferol', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau o ran bwyta neu yfed a phroblemau o ran iechyd a hylendid y geg, gan gynnwys danhenedd.
- 1.5** Er i'r nodiadau achos a archwiliwyd gennym ddangos bod pob claf wedi cael rhyw fath o sgrinio maethol, mewn un o bob deg o'r achosion hyn, ni ddefnyddiwyd yr offeryn sgrinio ac o ganlyniad ni chyfrifwyd sgôr risg. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn argymhell defnyddio'r Offeryn Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maeth (MUST)⁶ ond mae tri o sefydliadau'r GIG yn defnyddio offeryn sgrinio wedi'i ddilysu gwahanol.^{7,8,9} Gall methiant i

ddefnyddio offeryn sgrinio cydnabyddedig gyfrannu i asesiadau maethol o safon wael a chanfuwyd bod mesuriadau a gwybodaeth bwysig fel pwysau a thaldra, colli pwysau ac archwaeth ddiweddar yn aml yn eisiau. Mae **Ffigur 4** yn rhestru'r elfennau o sgrinio maethol a ystyriwyd gan archwilwyr ac mae'n dangos bod cyflawnder sgrinio yn amrywio ar draws sefydliadau'r GIG yr ymwelwyd â hwy. Yn aml nid oedd taldra cleifion yn cael ei gofnodi, a olygai fod cyfrifiadau o fynegai màs y corff yn eisiau yn aml hefyd, er bod llawer o offer sgrinio maethol yn gofyn am ei gofnodi. Gwelwyd bylchau amlwg hefyd o ran asesu iechyd y geg, er gwaethaf ei bwysigrwydd o ran bwyta ac yfed. Mae ein canfyddiadau ynglŷn ag asesu maeth a chynllunio gofal yn adleisio'r arsylwadau a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel rhan o'u haparchwiliadau diweddar o urddas a pharch.¹⁰

- 1.6** Nododd yr archwiliad nifer o resymau dros yr amrywiad o ran cwblhau'r broses sgrinio maethol neu'r ddogfennaeth asesu:
- a** nid oedd y cyfarpar priodol, megis clorian neu stadiomedr (i fesur taldra) ar gael mewn rhai wardiau, ac mewn llawer o achosion roedd manylion am bwysau a thaldra yn cael eu rhoi gan y claf ei hun;
 - b** mewn rhai achosion, nid oedd yn bosibl mesur pwysau na thaldra claf oherwydd ei gyflwr; ac
 - c** mewn rhai ysbytai nid oedd unrhyw raglenni hyfforddiant rheolaidd na hyfforddiant gloywi ar gyfer staff y ward i godi ymwybyddiaeth neu ddefnyddio'r offer sgrinio maethol na'r ddogfennaeth asesu.

6 Cynlluniwyd yr Offeryn Sgrinio Cyffredinol ar gyfer Diffyg Maeth (MUST) gan Grŵp Cyngori ar Ddiffyg Maeth Cymdeithas Maeth Parenterol ac Enterig Prydain, fel ffordd effeithiol o nodi oedolion (yn enwedig yr henoed) sy'n dioddef diffyg maeth, yn wynebu risg o ddiffyg maeth, neu sy'n ordew. Mae'r offeryn hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyflwyno cynllun trin effeithiol ac addas.

7 Cafodd yr offeryn sgrinio maeth Weight Appetite Ability to Eat – Stress Fractures and Pressure Sores (WAASP) – ei ddatblygu a'i ddilysu gan hen Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn parhau i ddefnyddio'r offeryn sgrinio hwn.

8 Cafodd offeryn sgrinio maethol Moreland ei ddatblygu yn benodol i gleifion oncoleg gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar ganol yr 1990au a'i ddilysu gan yr adran ddeietegol.

9 Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi datblygu ei offeryn sgrinio maethol ei hun sy'n cael ei ddilysu ar hyn o bryd.

10 Ceir rhagor o wybodaeth yn www.hiw.org.uk

Ffigur 4 – Mae cofnodion nyrsio sy'n ymwneud â sgrinio maethol yn cael eu cwblhau'n llawnach mewn rhai o gyrff GIG nag eraill

Eitemau Aseu	Canran yr eitemau aseu a gofnodwyd fel rhan o'r broses sgrinio maethol								
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Bwrdd Iechyd Cwm Taf	Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Bwrdd Iechyd Dysgu Powys	Ymddiriedolaeth GIG Felindre	Cymru
Defnyddio offeryn sgrinio i nodi cleifion mewn risg o ddiffyg maeth neu ddŵr	98	73	82	100	86	93	95	100	90
Pwysau ar adeg derbyn	68	97	42	95	94	76	100	69	75
Taldra ar adeg derbyn	12	93	47	0	57	3	89	62	37
Mynegai màs y corff wedi cyfrifo	17	60	45	0	97	25	84	0	41
Colli pwysau'n anfwriadol	92	83	75	100	77	93	42	85	83
Cyflwr iechyd y geg	15	70	36	0	86	53	79	92	47
Cymeriant deietegol arferol	82	77	0	100	94	63	58	92	64
Anghenion deietegol penodol	67	90	78	100	80	56	74	92	75
Archwaeth ar y pryd	92	90	82	100	97	93	79	100	91
Yn gallu bwyta heb gymorth	97	83	69	100	100	88	84	100	88
Yn gallu llyncu'n ddiraffferth	67	83	71	100	86	59	89	100	75

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o nodiadau achos



- 1.7** Hyd yn oed lle y casglwyd gwybodaeth am iechyd maeth cleifion, nid yw'r manylion a gofnodwyd bob amser yn gynhwysfawr. Er enghraifft, wrth ddisgrifio archwaeth claf, nid oedd yn anghyffredin i staff gofnodi 'deiet arferol' yn unig heb roi sylw i'r hyn a oedd yn arferol i'r claf unigol o ran y math o fwyd yr oedd yn ei fwyta a faint nac ychwaith a oedd archwaeth y claf wedi newid yn ddiweddar. Roedd dogfennaeth nyrsio mewn rhai ysbytai yn atgoffa staff i ofyn cyfres o gwestiynau, megis a oedd angen cymorth i fwyta ac yfed, ac i roi cylch o amgylch ie neu na mewn ymateb. Fodd bynnag, nid atgoffwyd staff i helpu i nodi'r broblem a'r cymorth angenrheidiol, pan ddywedodd claf 'ie'.
- 1.8** Wrth adolygu'r nodiadau achos, nid oedd yn anghyffredin bod y wybodaeth yr oeddem yn ei cheisio mewn perthynas â'r broses sgrinio maethol, neu'r asesiad deietegol, wedi'i chofnodi mewn nifer o ddogfennau ar wahân, megis nodiadau nyrsio, nodiadau meddygol neu ar ffurflenni asesu risg a oedd ar ben gwely claf, yn hytrach na bod wedi'i choladu mewn un lle. Nid yw'r ffordd ddarniog hon o gofnodi gwybodaeth yn galluogi staff i gael trosolwg sydyn o broblemau maeth claf ac nid yw'n hwylus ychwaith o ran adolygu statws maeth cleifion yn hawdd. At hynny, mae'n bosibl bod diffyg dogfennaeth nyrsio safonol ar gyfer cofnodi gwybodaeth asesu allweddol am weithgareddau bywyd bob dydd, megis bwyta ac yfed, yn cyfrannu at yr amrywiaeth o ran ansawdd y cofnodion nyrsio.
- 1.9** Adlewyrchir canfyddiadau ein hadolygiad o nodiadau achos yn yr ymateb gan gleifion a holwyd fel rhan o'r archwiliad. Roedd dwy ran o dair (67 y cant) o gleifion a ymatebodd i'n harolwg yn cofio cael eu pwyso yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty ond dim ond dwy ran o bump (41 y cant) oedd yn cofio trafod eu hanghenion deietegol â nyrsys.
- 1.10** Gwelwyd tystiolaeth bod rhai o gyrff y GIG yn monitro'r gydymffurfiaeth â sgrinio maethol yn rheolaidd (**Blwch 1**). Fodd bynnag, nid oedd dim un o sefydliadau'r GIG yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o sgrinio maethol i werthfawrogi'n llawn faint o gleifion â phroblemau maeth sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, effeithiolrwydd y llwybr gofal maeth o ran gwella iechyd maethol cleifion nac effaith debygol hynny ar wasanaethau arlwygo a maeth.

Blwch 1 – Monitro cydymffurfiaeth â sgrinio maethol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu nifer o ddangosyddion perfformiad ar lefel ward i fonitro safon y gofal nyrsio bob mis, gan gynnwys canran y cleifion sy'n cael eu sgrinio am broblemau maeth ar adeg derbyn a chanran y cleifion sy'n cael eu hailsginio o fewn y terfynau amser gofynnol.

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Yn sgîl archwiliad sylfaenol *Hanfodion Gofal*¹¹ yn 2009, rhoddodd un rheolwr ward archwiliad wythnosol ar waith i sicrhau bod y gweithdrefnau sgrinio priodol, gan gynnwys sgrinio maethol, yn cael eu cynnal ar adeg derbyn cleifion. Nodir bylchau yn y broses sgrinio maethol a chaiff y rhesymau dros beidio â chydymffurfio eu hystyried a'u hunioni.

¹¹ Cyhoeddwyd *Hanfodion Gofal. Gwella Ansawdd Agweddau Hanfodol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yn 2003. Mae'n amlinellu'r 12 agwedd hanfodol ar iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys bwyta ac yfed. Cynhaliwyd archwiliad sylfaenol mewn ysbytai ledled Cymru yn ystod 2009.

Yn achos gormod o gleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau o ran maeth nid oes cynllun gofal ar waith ar eu cyfer ac ni chânt eu cyfeirio i gael asesiad deietegol pellach

- 1.11** Dylai sgrinio maethol arwain at gynllun gofal i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal maeth sydd ei angen arnynt. Canfuwyd nad oedd cynllun gofal ar waith ar gyfer ychydig dros hanner (52 y cant) o'r cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau. I'r rhai yr oedd ganddynt gynllun gofal, roedd y rhain yn cynnwys camau gweithredu syml megis monitro cymeriant bwyd a diod, helpu cleifion i fwyta, neu ddarparu byrbrydau maethlon rhwng prydau bwyd. Dylai cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau o ran maeth neu eu bod yn wynebu risg fawr o gael problemau maeth, gael eu cyfeirio i gael asesiad deietegol. Fodd bynnag, canfuwyd bod llai na hanner y cleifion hyn â risg uchel (47 y cant) wedi cael eu cyfeirio at y deietegydd.
- 1.12** Dylai cleifion y nodwyd eu bod yn wynebu risg isel o broblemau maeth ar adeg derbyn gael eu pwysu a'u hailsginio bob wythnos i sicrhau nad oedd eu statws maeth wedi newid. Fodd bynnag, canfuwyd nad oedd hyn yn digwydd bob amser a phan ail-sgriniwyd cleifion, yn aml nid oedd y wybodaeth a gofnodwyd yn ddigon manwl i'w gwneud yn bosibl i asesu newidiadau i'r risg o ran maeth gael eu hasesu'n briodol. Fodd bynnag nodwyd bod rhai o'r wardiau yr ymwelwyd â hwy wedi cyflwyno 'diwrnodau pwysu' i wella'r broses sgrinio wythnosol.
- 1.15** Ceir enghreifftiau o arfer da o ran cynllunio gofal maeth y mae angen eu hefelychu'n ehangach. Er enghraifft ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf mae staff nyrsio yn gweithredu cynlluniau gofal maeth ar gyfer pob claf, hyd yn oed y rhai y nodwyd eu bod yn wynebu risg isel o gael problemau maeth. Mae'r cynllun gofal maeth yn nodi nifer o gamau gweithredu a ragnodwyd yn dibynnu ar sgôr risg MUST. Mae'n sicrhau y caiff cleifion y nodwyd eu bod yn wynebu risg isel eu pwysu a'u hailsginio'n wythnosol. Nodir manylion y cynllun gofal maeth a ddefnyddir ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf yn **Atodiad 4**.
- 1.16** Codwyd pryderon gan staff deietegol y cyfarfuom â hwy ynglŷn â dibynadwyedd y sgrinio risg maeth a gynhaliwyd ar rai wardiau, yn enwedig gwahaniaethau mewn sgoriau risg o ran maeth pan gaiff cleifion eu sgrinio gan staff deietegol a nyrsio. Roedd deietegwyr yn pryderu y gall asesiadau gan staff y ward danddatgan risg o ran maeth ac na fyddai camau pwysig yn cael eu cymryd, megis cyfeirio claf at ddeietegydd neu fonitro cymeriant bwyd yn fanylach. Mae hyn yn dangos bod angen i sefydliadau'r GIG ddefnyddio eu harbenigedd deietegol yn fwy effeithiol i roi hyfforddiant ac arweiniad ar sgrinio maethol effeithiol ar gyfer staff ar y wardiau.



Ni chaiff cymeriant bwyd cleifion sy'n wynebu risg ei gofnodi bob amser

1.17 Mae'n bwysig monitro a chofnodi cymeriant bwyd a diod cleifion sydd â phroblemau maeth. Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad siartiau bwyd i Gymru gyfan ar yr un pryd ag y cyflwynodd lwybr gofal maeth. Pryd bynnag y caiff cleifion eu derbyn i'r ysbyty, dylai staff nyrsio gofnodi'r holl fwyd a diod a gymerir gan gleifion drwy'r dydd mewn ffordd systematig a chyson. Datblygwyd canllaw ar ffurf ffotograffau i fod yn safon weladwy ar gyfer cofnodi maint cyfran o fwyd a faint o fwyd a diod a gymerir. Roedd y canllaw hwn wedi'i arddangos fel poster ar y rhan fwyaf o wardiau yr ymwelwyd â hwy. Dylai staff nyrsio hefyd gofnodi disgrifiad o'r bwyd a'r ddiod a gymerir, yn ogystal ag unrhyw resymau dros beidio â bwyta prydau bwyd, er enghraifft, am nad oedd y claf yn y ward yn ystod amser bwyd. Dylai nyrsys cofrestredig lofnodi a chydlofnodi'r siartiau bwyd ddwywaith y dydd.

1.18 Er bod staff nyrsio yn monitro'r hyn yr oedd cleifion yn ei fwyta, canfuwyd ar rai wardiau nad oedd cymeriant bwyd a diod bob amser yn cael ei gofnodi ac nad oedd siartiau yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi gan nyrs gofrestredig. Mewn rhai achosion, roedd siartiau yn cael eu llofnodi gan staff nos nad oeddent yn bresennol yn ystod unrhyw un o'r prif brydau bwyd. Ymhlith y materion eraill a gododd yn ystod ein hymweliadau archwilio roedd:

- a** staff nyrsio yn dibynnu ar gleifion i gofio'r hyn roeddent wedi'i fwyta er mwyn cwblhau'r siartiau bwyd;
- b** staff nyrsio nad oeddent yn siŵr sut i lenwi'r siartiau bwyd yn gywir, ac o ganlyniad nad oeddent yn cofnodi'r mathau o fwyd a diod a gymerwyd gan y claf; a
- c** diffyg eglurder ynghylch pryd roedd yn briodol peidio â pharhau i gofnodi cymeriant bwyd a diod pe bai gan glaf sgôr risg isel o ran maeth.

1.19 Yn ogystal â bod o bwys yn glinigol, gall fod manteision eraill i siartiau bwyd (a diod). Ar rai wardiau yr ymwelwyd â hwy, roedd y siart bwyd yn cael ei arddangos mewn lle amlwg wrth ymyl gwely fel y gallai teulu a ffrindiau weld yn sydyn y math o fwyd roedd y claf wedi'i fwyta yn ystod amser bwyd, a faint, a ph'un a oedd anghenion maeth y claf yn cael eu diwallu.

Rhan 2 – Mae'r rhan fwyaf o ysbytai yn cynnig dewis priodol o brydau bwyd ac mae cleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ar y cyfan, ond mae angen gwella'r asesiad maethol o fwydlenni a phrofiadau cleifion o amser bwyd

2.1 Ar ôl i anghenion a dewisiadau maethol cleifion gael eu nodi, dylent gael prydau bwyd maethlon o safon dda sy'n diwallu eu hanghenion deietegol a diwylliannol. Dylai cleifion hefyd ddisgwyl cael dewis rhesymol o brydau bwyd a gallu bwyta eu bwyd heb i neb darfu arnynt. Dylai cleifion sydd angen cymorth i fwyta gael eu nodi a dylai cymorth priodol gael ei roi. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried cynllunio bwydlenni, y trefniadau ar gyfer archebu prydau bwyd cleifion, profiadau cleifion o amser bwyd a bodddhad cyffredinol cleifion â'r bwyd a gânt.

Mae'r rhan fwyaf o ysbytai yn cynnig dewis priodol o brydau bwyd i gleifion ond nid yw pob bwydlen wedi'i hasesu o ran maeth

2.2 Mae llunio bwydlen yn cynnwys adolygu'r amrywiaeth o brydau bwyd sydd ar gael i ddiwallu anghenion a dewisiadau deietegol cleifion, yn ogystal â chydbwysedd cynnwys y pryd, nifer y cyrsiau ar gyfer pob pryd, maint cyfrannau ac amseriad y prif bryd o fwyd. Dylai'r fwydlen gael ei chynllunio gan ddefnyddio ryseitiai safonol wedi'u hasesu o ran maeth i sicrhau bod cynnwys maethol prydau bwyd yn briodol. Yn 2002, canfu'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru fod y rhan fwyaf o ysbytai yn cynnwys deietegwyr yn y gwaith o gynllunio bwydlenni. Erbyn hyn, mae deietegwyr yn chwarae rhan weithredol yn y

gwaith o gynllunio prydau bwyd mewn ysbytai. Canfuwyd hefyd mewn rhai o gyrff y GIG fod therapyddion lleferydd ac iaith yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio bwydlenni i ddiwallu anghenion cleifion sy'n cael anhawster i lynu.

2.3 Er gwaethaf ymwneud deietegwyr yn y gwaith o gynllunio bwydlenni, nid yw pob bwydlen ysbyty wedi cael ei hasesu o ran maeth. Argymhellodd Fframwaith Maeth ac Arlwyo 2002 y dylid cynllunio bwydlenni gan ddefnyddio ryseitiai safonol wedi'u hasesu o ran maeth. Canfuwyd bod 15 allan o 23 o ysbytai wedi asesu eu bwydlenni neu eu ryseitiai unigol o ran maeth. Ar y cyfan, roedd maeth bwydlenni yn cael ei asesu'n well lle roedd dulliau cynhyrchu coginio a rhewi neu goginio ac oeri yn cael eu defnyddio. Dangosodd ein harchwiliadau lleol fod byrddau iechyd yn cydnabod yr angen i asesu bwydlenni cleifion o ran maeth ar frys a bod rhai yn gwneud hynny fel rhan o drefniadau ar gyfer cysoni gwasanaethau arlwyo ar draws ysbytai yn sgîl ad-drefnu'r GIG.

2.4 Dim ond tri bwrdd iechyd, Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, a Phowys sy'n defnyddio bwydlen safonol ym mhob un o'u hysbytai, lle mae cleifion yn cael yr un bwyd a'r un dewis o fwydlen lle bynnag y cant eu derbyn. Mae'r byrddau iechyd eraill yn dal i ddefnyddio gwahanol fwydlenni a ryseitiai a etifeddwyd oddi wrth yr Ymddiriedolaethau GIG a'u rhagflaenodd. Dylai safoni'r fwydlen ei gwneud yn haws i gaffael bwyd am y pris



mwyaf cystadleuol ac i gostio ryseitiai. Gall hefyd wneud y gwaith asesu cynnwys yn fwy effeithlon a helpu i sicrhau bod cleifion yn cael bwyd o'r un safon, pa bynnag ysbyty y maent yn aros ynddo.

- 2.5** Un rhan bwysig o unrhyw fwydlen yw dewis ac roedd y rhan fwyaf o ysbytai yr ymwelwyd â hwy yn cynnig dewis da i'w cleifion. Fel arfer, gall cleifion ddewis o dair eitem prif gwrs gan gynnwys opsiwn llysiuol ar gyfer eu prif bryd o fwyd yn ystod y dydd. Mae bwydlenni fel arfer yn cylchdroi ar gylch o ddwy neu dair wythnos er mwyn cynnig amrywiaeth. Lle mae trefniadau arlwyio hyblyg ar y ward, mae lle i ysbytai gynnig hyd yn oed mwy o ddewis. Gwelir enghraifft o hynny ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro lle bydd fwydlen safonol newydd yn cynnig dewis o hyd at 47 o wahanol brif brydau mewn wythnos.
- 2.6** Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion (73 y cant) a ymatebodd i'n harolwg fod y fwydlen bob amser yn cynnig digon o ddewis, neu gan amlaf, a theimlai cyfran uwch (80 y cant) fod y fwydlen yn newid yn ddigon aml. Er bod y rhan fwyaf o gleifion a ymatebodd i'n harolwg wedi dweud wrthym eu bod wedi cael prydau bwyd a oedd yn addas ar gyfer eu hanghenion, nododd nifer fach o gleifion fod bwydlenni'n ailadroddus a bod diffyg eglurder ynglŷn â'r dewisiadau i'r rhai a oedd ag anghenion deietegol arbennig, fel deiet diabetig neu ddi-glwten. Roedd un bwrdd iechyd yn peidio â darparu prydau bwyd ethnig yn rheolaidd ar y sail nad oedd galw amdanynt. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw waith wedi cael ei wneud i gadarnhau'r canfyddiad hwn neu p'un a oedd cleifion, yn absenoldeb dewis o'r fath, yn trefnu i eraill ddod â bwyd i'r ysbyty iddynt.

Mae lle i wella systemau archebu prydau bwyd mewn nifer o ysbytai

- 2.7** Mae byrddau iechyd yn defnyddio nifer o ddulliau cynhyrchu prydau bwyd a gwahanol fodolau o ddarparu gwasanaethau i'r wardiau, a etifeddwyd oddi wrth eu cyrff rhagflaenol. (Gwelir **Atodiad 5** am fanylion y gwahanol fodolau a'u cryfderau a'u gwendidau.) Mae pob un o'r systemau hyn yn tueddu i ddylanwadu ar y ffordd y caiff prydau bwyd cleifion eu harchebu ond mae pob system yn dibynnu ar gyfathrebu da rhwng wardiau a'r adran arlwyio er mwyn sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu.
- 2.8** Dylai fod modd i gleifion ddewis eu pryd mor agos i'r amser bwyd â phosibl ac yn sicr dim mwy na 24 awr ymlaen llaw. Canfuwyd y gall arferion archebu amrywio'n sylweddol rhwng ysbytai. Yn y rhan fwyaf o ysbytai, roedd cleifion yn archebu eu prydau hyd at 24 awr ymlaen llaw gan ddefnyddio ffurflenni bwydlen traddodiadol ond yn yr ysbytai hynny â gwasanaethau arlwyio ar y ward, gallai cleifion archebu eu pryd ychydig oriau yn unig cyn iddynt gael eu gweini.
- 2.9** Ym mhob bwrdd iechyd, roedd y broses ar gyfer cofnodi dewisiadau cleifion yn broses ar bapur. Mewn ysbytai lle defnyddir dulliau coginio confensiynol, roedd bwydlenni yn cael eu coladu â llaw a'u troi'n rhestrau cynhyrchu i'r gegin. Mae'r broses hon yn mynd â chrym adnoddau ac mewn rhai achosion gall staff gweinyddol gymryd rhwng dwy a phedair awr y dydd yn cwblhau'r rhestrau hyn. Dim ond Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan oedd yn gwneud unrhyw gynnydd o ran cyfrifiaduro'r system ac roedd cynllun peilot yn cael ei gyflwyno a oedd yn defnyddio dyfeisiau a ddelir â llaw i wella effeithlonrwydd a rhoi cyfle i archebu'n agosach i'r amser bwyd ei hun.

2.10 Mae staff arlwyo ar y ward sy'n cymryd archebion cleifion yn dibynnu ar staff nyrsio i lunio 'cynllun gwelyau' sy'n nodi nifer y cleifion ar y ward sydd angen prydau bwyd arnynt ac sydd hefyd yn tynnu eu sylw at y cleifion hynny ag anghenion deietegol arbennig. Fodd bynnag, nid oedd staff nyrsio bob amser yn llunio 'cynlluniau gwelyau', a lle roeddent ar waith nid oeddent bob amser yn cael eu diweddarau i adlewyrchu anghenion cleifion newydd neu newidiadau mewn gofynion deietegol. Gall fod goblygiadau i absenoldeb cynllun gwelyau o ran gofal clinigol cleifion.

Ar un ward yr ymwelwyd â hi nid oedd staff arlwyo ar y ward yn ymwybodol bod angen cymryd camau rhagofalus ychwanegol wrth baratoi a gweini bwyd i glaf a oedd yn wynebu risg o haint a oedd yn uwch na'r cyffredin. Gwelwyd hefyd staff yn cynnig neu'n gweini prydau bwyd i rai cleifion na ddylent fwyta nac yfed ac yn aros am lawdriniaeth neu brofion diagnostig.

2.11 Ni chaiff pob claf gyfle i archebu'r hyn y mae'n ei fwyta. Mewn sawl ysbyty, nid yw cleifion yn cwblhau ffurflen archebu bwyd ac ni ofynnir iddynt nodi beth maent am ei gael. Yn hytrach, mae staff nyrsio yn archebu prydau bwyd ar ran cleifion ac yn gofyn am nifer y prydau bwyd sy'n cyfateb i nifer y cleifion ar y ward. Nid oedd yn anghyffredin i staff nyrsio ddweud wrthym nad oedd ganddynt fawr ddim gwybodaeth am fwydlen y dydd cyn archebu nifer y prydau i gleifion yn aml. O ganlyniad, gwelwyd rhai cleifion a oedd yn cael prydau bwyd nad oeddent yn addas at eu hanghenion na'u dymuniadau. Lle na allai cleifion archebu eu bwyd ymlaen llaw, yn aml roedd y dewis o brydau bwyd yn gyfyngedig wrth iddynt gael eu gweini am fod y dewis 'wedi dod i ben' erbyn i'r troli bwyd eu cyrraedd. Mewn ysbytai lle mae angen i gleifion archebu eu bwyd 24 awr neu fwy

ymlaen llaw, gwelwyd enghreifftiau o gleifion yn cael y pryd o fwyd a archebwyd gan y claf a oedd yn y gwely o'u blaen.

2.12 Roedd yn arfer cyffredin hefyd i staff nyrsio weini prydau bwyd mewn trefn, gan ddechrau wrth yr un gwely bob amser. Drwy fethu â chylchdroi man dechrau'r gwasanaeth bwyd prin bod rhai cleifion yn cael dewis o bryd bwyd erbyn i'r troli bwyd eu cyrraedd.

2.13 Bydd mynd i'r afael â rhai o'r problemau a nodwyd uchod yn gofyn am rai newidiadau hanfodol mewn arferion o ran prosesau archebu. Fodd bynnag, mewn sawl achos gall gwell cyfathrebu rhwng staff nyrsio ac arlwyo arwain at atebion syml sy'n rhoi gwell dewis o fwyd i gleifion.

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ond dywedodd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau

2.14 Dangosodd ein harolwg fod cleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt yn yr ysbyty ar y cyfan. Dywedodd dros hanner (55 y cant) o'r cleifion a holwyd gennym fod y bwyd a roddwyd iddynt yn dda neu'n ardderchog a dywedodd 27 y cant arall fod y bwyd yn dderbyniol. Mae'r lefelau boddhad hyn yn debyg iawn i'r hyn a nodwyd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2002.

2.15 Dywedodd dros hanner y cleifion (54 y cant) fod eu bwyd yn blasu'n dda neu'n ardderchog a themlai ychydig dros chwarter (28 y cant) ei fod yn dderbyniol. Fodd bynnag, roedd nifer fach o gleifion wedi cael profiad gwahanol, gan nodi bod llawer o brydau bwyd wedi'u cyflwyno'n wael a'u bod yn ddi-flas.



- 2.16** Mae amseriad y prydau bwyd yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion cleifion; roedd 59 y cant yn fodlon ar yr amser y cafodd prydau eu gweini. Fodd bynnag, i lawer o gleifion mae'r bwlch rhwng y pryd min nos, a weinir tua 5 pm fel arfer, a brecwast y diwrnod wedyn yn rhy fawr. O ganlyniad i hynny, ar rai wardiau mae prif nyrsys wedi cyflwyno rownd ddiweddarach o ddiodydd a byrbrydau. Ond dywedwyd wrthym y gallai hyn fod yn anodd ei weithredu os yw'r ward yn arbennig o brysur.
- 2.17** Mae gan y rhan fwyaf o ysbytai drefniadau ar waith i gynnig byrbrydau ac mae sawl un wedi dechrau bwydlenni o fyrbrydau. Fodd bynnag, canfuwyd y gall y gweithdrefnau ar gyfer archebu byrbrydau amrywio rhwng ysbytai o fewn yr un bwrdd iechyd. Mewn rhai ysbytai mae staff deietegol yn 'pennu' byrbrydau cyn iddynt fod ar gael ond mewn ysbytai eraill mae staff nyrsio yn archebu byrbrydau i'w cleifion.
- 2.18** Mae Safonau Gofal Iechyd Cymru wedi nodi bod angen i fwyd fod ar gael i gleifion 24 awr y dydd. Mae hyn yn bwysig i gleifion, megis y rhai â diabetes, sydd ag anghenion deietegol arbennig a hefyd y rhai sydd wedi colli pryd o fwyd oherwydd yr adeg y gwnaethant gyrraedd y ward. Roedd y rhan fwyaf o brif nyrsys yn ffyddiog bod y trefniadau yn diwallu anghenion cleifion a chanfuwyd bod byrbrydau ar gael fel arfer i gleifion sydd ag anghenion deietegol penodol.
- 2.19** Fodd bynnag, nododd ymatebion o'n harolwg o gleifion ddarlun llai cadarnhaol. Nododd tair rhan o bump o ymatebwyr nad oedd byrbrydau bron byth neu fyth ar gael. Awgryma hyn nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio'n dda, naill ai o ran darparu byrbrydau, nac o ran ymwybyddiaeth cleifion o'r hyn sydd ar gael.
- 2.20** O gofio bod llawer o ysbytai yn gofyn i gleifion a'u perthnasau beidio â dod â'u bwyd eu hunain ar y ward ar sail hylendid bwyd, mae'n mynd hyd yn oed yn bwysicach bod staff y ward yn sicrhau nad oedd eisiau bwyd ar gleifion, naill ai o ganlyniad i golli pryd o fwyd neu oherwydd hyd yr amser rhwng gwasanaethau bwyd arferol.
- 2.21** Dangosodd ein harsylwadau ar wardiau, ac ymatebion i'n harolwg o gleifion fod prydau bwyd amgen ar gael i'r rhan fwyaf o gleifion, ond nid pob un, nad oeddent ar y ward yn ystod amser bwyd. Yn yr un modd, nododd y rhan fwyaf (87 y cant) o gleifion a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi cael digon neu weithiau ormod i'w fwyta. Fodd bynnag, hoffai lleiafrif bach ond arwyddocaol fod wedi cael mwy o fwyd ac mae'n tynnu sylw at yr angen i adolygu arferion ar rai wardiau i sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu. Atgyfnerthir hyn gan y ffaith bod nifer fach o staff nyrsio hefyd wedi dweud wrthym y byddant yn gorddatgan y sgôr risg o ran maeth i sicrhau bod cleifion yn cael byrbrydau.
- 2.22** Yn ogystal â'r ymatebion i'n harolwg o gleifion, casglodd archwilwyr wybodaeth bellach am ansawdd bwyd drwy baneli blasu bwyd a gynhelir yn y rhan fwyaf o ysbytai. Roedd y paneli hyn yn cynnwys staff byrddau iechyd amrywiol, cynrychiolwyr cleifion ac archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru. Blasodd y panel bryd o fwyd arferol i gleifion gan raddio'r bwyd am wahanol agweddau ar ansawdd. Er bod y data a ddarparwyd gan y paneli hyn yn oddrychol o bosibl, tynnwyd sylw at rai materion pwysig. Mewn llawer o ysbytai, rhoddodd y panel blasu sgôr uchel i'r bwyd ac roedd llawer o staff y ward yn canfod bod ansawdd y bwyd yn llawer gwell na'r disgwyl. Nododd y paneli blasu faterion hefyd

yr oedd angen i sefydliadau unigol fynd i'r afael â hwy, megis yr angen i wella ansawdd rhai bwydydd i'w gwneud yn haws i gleifion eu llyncu, er mwyn adolygu ffactorau sy'n effeithio ar flas megis halen a phapur, neu newid dulliau coginio i wella ymddangosiad y bwyd. Mae nifer fach o ysbytai, megis Singleton yn Abertawe, yn asesu ansawdd prydau bwyd cleifion yn rheolaidd (**Blwch 2**).

Blwch 2 – Monitro ansawdd prydau bwyd cleifion yn Ysbyty Singleton

Mae staff arlwygo yn Ysbyty Singleton yn defnyddio rhestr dreigl o sesiynau blasu i sicrhau bod pob eitem ar y fwydlen yn cael ei samplu'n rheolaidd, gan gynnwys prydau arbennig fel deietau mwtrin. Caiff prydau bwyd sgôr o ddim ('gwael iawn') i 10 ('arderchog') o ran blas, ymddangosiad, addasrwydd, maint cyfran ac ansawdd. Defnyddir y canfyddiadau i wella ansawdd y bwyd, megis ailhyfforddi cynorthwyr arlwygo ar y ward ar ailgynhyrchu prydau bwyd neu drafodaethau â chogyddion i newid ryseitiau neu fwydlenni. Ar adeg ein harchwiliad, nid oedd yr ysbyty yn cynnwys cleifion na staff nyrsio yn y sesiynau blasu hyn ond roedd yn cynnwys deietegwyr na therapyddion lleferydd ac iaith.

2.23 Yn 2002, canfu'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru fod llawer o achosion lle roedd cludo prydau bwyd ar droliâu o safon wael wedi peri i'r bwyd ddirywio erbyn iddo gyrraedd y ward. Ers hynny mae sefydliadau'r GIG wedi buddsoddi mewn cyfarpar priodol i'r graddau nad yw hyn yn broblem mwyach i'r rhan fwyaf o ysbytai. Nododd archwilywyr fod prydau bwyd yn gadael y gegin mewn cyflwr da, a bod ansawdd y bwyd yn cael ei gynnal wrth iddo gael ei gludo i'r ward lle roedd yn cael ei weini'n gyflym i gleifion yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae'r amgylchedd lle mae cleifion yn bwyta eu bwyd wedi gwella'n sylweddol

2.24 Hyd yn oed cyn i'r bwyd gyrraedd, mae'n bwysig bod staff yn paratoi amgylchedd y ward er mwyn i gleifion gael eu hannog i fwyta eu bwyd. Lle y bo modd, dylai cleifion gael dewis lle maent yn bwyta eu bwyd. Roedd dwy ran o dair (68 y cant) o gleifion a ymatebodd i'n harolwg wedi bwyta eu bwyd wrth ymyl y gwely ac roedd un o bob tri (28 y cant) wedi bwyta eu prydau bwyd yn y gwely.

2.25 Roedd nifer fach o gleifion (tri y cant) wedi defnyddio mannau bwyta cymunedol, er nad oes cyfleusterau lle y gall cleifion fwyta gyda'i gilydd ar gael mwyach yn y rhan fwyaf o wardiau mewn ysbytai aciwt. Ar sawl ward yr ymwelwyd â hwy, roedd prif nyrsys yn ceisio gwella'r agweddau cymdeithasol ar amser bwyd er enghraifft:

- a** Cyflwynodd ward gofal i'r henoed yn Ysbyty Llandoche glwb cinio ar ddydd lau a dydd Sul. Y nod oedd sicrhau bod cleifion yn dod i arfer â gweithgareddau cymdeithasol beunyddiol arferol cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Anogir staff i gael cinio gyda chleifion o leiaf unwaith yr wythnos hefyd.
- b** Yn un o wardiau Ysbyty Felindre crëwyd man bwyta i'r cleifion er mwyn hyrwyddo agweddau cymdeithasol ar fwyta a gwella cymeriant bwyd.

2.26 Yn y gwaith a arweiniodd at adroddiad 2002 y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, sylwodd archwilywyr fod llawer o gleifion yn bwyta eu bwyd ynghanol gwastraff, megis pedyll gwely heb eu gwagio a sbwriel arall ar fyrddau ymyl gwely. Roedd hyn nid yn unig yn annymunol i'r claf unigol ond roedd hefyd yn effeithio ar gleifion cyfagos. Mae'r trefniadau hyn wedi



gwella'n sylweddol gyda'r rhan fwyaf o wardiau yr ymwelwyd â hwy yn cymryd camau gweithredol i baratoi manau cleifion i dderbyn prydau bwyd. Dywedodd bron bob claf (95 y cant) wrthym fod y man lle roeddent yn bwyta eu bwyd bob amser yn lân ac yn daclus neu'n lân ac yn daclus gan amlaf. Fodd bynnag, ar nifer o wardiau, gwelwyd bod paratoi ar gyfer amser bwyd yn digwydd wrth weini'r bwyd. Mewn achosion o'r fath, roedd eitemau yn cael eu clirio ag un llaw tra bod yr hambwrdd bwyd yn cael ei gludo yn y llall. Yn ddelfrydol, dylid paratoi'r ward cyn i'r bwyd gyrraedd, yn rhannol er mwyn dangos pwysigrwydd y pryd sydd ar ddod.

Mae egwyddor amser bwyd wedi'i ddiogelu yn cael ei hymgorffori'n fwyfwy ond gellid gwneud mwy ar rai wardiau

- 2.27** Mae amser bwyd wedi'i ddiogelu yn rhan bwysig o greu amgylchedd ward sy'n annog cleifion i fwyta a mwynhau eu bwyd. Amser bwyd wedi'i ddiogelu yw cyfnodau lle mae pob gweithgarwch nad yw'n weithgarwch brys yn dod i ben ar wardiau ysbytai er mwyn rhoi cyfle i gleifion fwyta eu pryd o fwyd heb i neb amharu arnynt yn ddiangen, a phan fydd staff nyrsio yn gallu rhoi cymorth i bobl yn ystod amser bwyd.
- 2.28** Mae pob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru wedi pennu polisiâu amser bwyd wedi'i ddiogelu a gwelwyd cryn ymrwymiad i amser bwyd wedi'i ddiogelu ymhlith y rhan fwyaf o staff wardiau a oedd yn barod i herio meddygon, criwiau ambiwlans, ymwelwyr ac eraill os oeddent wedi mynd at ymyl gwelyau neu wedi amharu ar gleifion yn ddiangen yn ystod amser bwyd. Ceisiodd llawer o wardiau wahanol ffyrdd o atgyfnerthu pwysigrwydd amser bwyd wedi'i ddiogelu (**Blwch 3**).

Blwch 3 – Mae wardiau ysbytai wedi rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o atgyfnerthu pwysigrwydd amser bwyd wedi'i ddiogelu drwy:

- osgoi gweithdrefnau nad ydynt yn rhai brys a phroffion diagnostig yn ystod amser bwyd;
- annog staff nad ydynt yn staff ward i gael eu prydau bwyd yn ystod cyfnod yr amser bwyd wedi'i ddiogelu;
- hyrwyddo amser wedi'i ddiogelu yn ystod rhaglenni sefydlu i staff meddygol newydd;
- hyrwyddo amser bwyd wedi'i ddiogelu mewn llyfrynnau gwybodaeth i gleifion neu nosweithiau agored i gleifion;
- cau drysau ward ac addasu goleuadau yng nghoridorau wardiau er mwyn darbwyllo pobl i beidio ag amharu yn ystod amser bwyd;
- newid amseroedd ymweld fel na fyddant yn gorgyffwrdd ag amser bwyd wedi'i ddiogelu; ac
- arddangos arwyddion am amser bwyd wedi'i ddiogelu, er i ni sylwi bod amrywiaeth o ran maint ac amlygrwydd arwyddion.

- 2.29** Fodd bynnag, dangosodd ein hymweliadau â wardiau y gall cydymffurfiaeth â pholisiâu amser bwyd wedi'i ddiogelu amrywio'n sylweddol. Er nad yw'n bosibl i bob ward ysbyty weithredu amser bwyd wedi'i ddiogelu drwy'r amser oherwydd natur y driniaeth a'r gofal sydd eu hangen ar rai cleifion, nodwyd nifer fawr o achlysuron pan oedd amser bwyd yn cyd-daro â gwaith staff glanhau, staff nyrsio yn ymgymryd â rowndiau rhoi moddion, ffisiotherapyddion yn trin cleifion a fferyllwyr yn adolygu siartiau cyffuriau cleifion. Gwelsom hefyd staff yn mynd â chleifion i gael profion diagnostig yn ystod amser bwyd. Dywedwyd wrthym mai'r rhai na allai fwyta nac yfed oedd y cleifion hyn ac nad oedd y polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu yn gymwys iddynt, er i hynny amharu ar gleifion eraill a mynd â sylw'r staff oddi ar weini'r bwyd.

2.30 Roedd ein harsylwadau ar y wardiau yn adlewyrchu'r ymateb a gafwyd yn ein harolwg o gleifion i raddau helaeth. Dywedodd hanner y cleifion wrthym nad amharwyd ar eu hamser bwyd o gwbl ond dywedodd 38 y cant wrthym nad amharwyd ar eu hamser bwyd y rhan fwyaf o'r amser. Gyda'i gilydd mae'r canlyniadau hyn yn galonogol ac maent yn dangos er bod angen gwneud rhagor ar rai wardiau, fod egwyddor amser bwyd wedi'i ddiogelu yn cael ei hymgorffori'n fwyfwy yn arfer y staff.

Nid yw pob claf yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod amser bwyd

2.31 Er i ni weld enghreifftiau o staff ward yn helpu cleifion i eistedd i fyny neu godi o'r gwely cyn amser bwyd, nododd ychydig llai na hanner y cleifion a ddywedodd wrthym fod angen cymorth arnynt i fod yn gyfforddus cyn bwyta iddynt gael y cymorth angenrheidiol. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ag archwiliadau arsylwi a gynhaliwyd gan therapyddion lleferydd ac iaith mewn un bwrdd iechyd a ganfu nad oedd cleifion a oedd yn cael anhawster i lynu bob amser yn cael eu gosod yn y sefyllfa gywir cyn amser bwyd ac nad oedd y cleifion hyn yn cael eu goruchwylio'n ddigonol yn ystod amser bwyd.

2.32 Fel rhan o'r archwiliad, gofynnwyd i gleifion a oeddent wedi cael cyfle i olchi eu dwylo cyn cael eu pryd o fwyd. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan gyda dwy ran o dair (65 y cant) yn nodi eu bod bob amser wedi cael cyfle i olchi eu dwylo cyn cael eu pryd o fwyd, ac un rhan o bump (19 y cant) yn dweud eu bod wedi cael cyfle y rhan fwyaf o'r amser. Ym marn rhai o'r nyrsys y cyfarfûm â hwy roedd golchi dwylo yn arfer pwysig i atal lledaenu haint a gwnaethant ymdrech fawr i

ddarbwylo cleifion i ddefnyddio'r hylif wrth ymyl y gwely cyn bwyta bwyd. Fodd bynnag, ar rai wardiau yr ymwelwyd â hwy, nid oedd fawr o dystiolaeth bod staff yn annog cleifion i lanhau eu dwylo cyn bwyta. Lle roedd cadachau glanhau dwylo ar gael, nid oeddent yn cael eu defnyddio bob amser, yn aml am nad oeddent yn cael eu dosbarthu neu am fod y staff o'r farn eu bod yn rhy gostus. Yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, roedd staff arlwygo ar y ward yn rhoi cadachau glanhau dwylo wedi'u lapio'n unigol i gleifion fel rhan o'r gwasanaeth prydau bwyd. Roedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi cynnal cynllun peilot tebyg ond yn y pen draw penderfynwyd defnyddio ffyrdd amgen llai costus.

2.33 Nododd tri chwarter (76 y cant) o gleifion a ddywedodd wrthym fod angen cymorth arnynt i fwyta eu pryd eu bod bob amser wedi cael cymorth, gyda staff nyrsio a ffrindiau a theulu yn eu cynorthwyo. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o gleifion wrthym eu bod yn gorfod aros yn rhy hir i gael cymorth ar ôl iddynt gael eu pryd o fwyd. Dywedodd nifer fach o gleifion wrthym hefyd fod angen cymhorthion bwyta arnynt, megis cylyll a ffyrc wedi'u haddasu, giardiaid plât a matiau gwrthslip, ond nad oeddent yn eu cael bob amser.

2.34 Roedd ymateb cleifion yn adlewyrchu'r arferion a welwyd gennym yn ystod amser bwyd ar y ward i raddau helaeth. Gwelwyd rhai enghreifftiau ardderchog o fentrau i roi'r cymorth yr oedd ei angen ar gleifion i fwyta, megis defnyddio cynorthwywyr deietegol neu'r ffordd yr oedd amser bwyd yn cael ei drefnu (**Blwch 4**). Fodd bynnag, gwelwyd sawl claf yn aros mwy nag 20 munud i gael cymorth i agor y pecyn o amgylch y bwyd, torri bwyd yn fân neu gael cymorth i'w fwyta.



Blwch 4 – Trefnu amser bwyd i wella'r gefnogaeth i gleifion sydd angen cymorth

Crëwyd rôl Cynorthwydd Deietegol i gefnogi ward adsefydlu aciwt meddygol yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r cymorth ar gael saith diwrnod yr wythnos amser cinio a swper i gefnogi cleifion sydd angen cymorth i fwyta eu bwyd. Mae hyn yn cynnwys helpu cleifion i ddewis y pryd o fwyd cywir ac yna eu helpu i'w fwyta. Mae'r Cynorthwydd Deietegol yn gweithio'n agos gyda staff nyrsio i sicrhau bod pob claf sydd angen cymorth i fwyta yn ei gael. Gan weithio'n agos gyda'r deietegydd, mae'r Cynorthwydd Deietegol hefyd yn helpu i sicrhau y caiff cymeriant bwyd a diod ei fonitro a bod byrbrydau ac atchwanegiadau maethol a ragnodwyd ar gael, wedi'u bwyta ac wedi'u monitro.

Ar ward gofal strôc Ysbyty Tywysoges Cymru, mae'r staff nyrsio yn gyfrifol am wasanaethau prydau bwyd ac mae pob aelod o'r staff nyrsio – cofrestredig neu anghofrestredig – yn gweithio fel tîm yn ystod amser bwyd. Dynodir un aelod o'r tîm i ateb y clychau galw, helpu cleifion i fynd i'r toiled, ateb y ffôn, ac ati, ac nid yw'n cymryd rhan yn y broses o weini prydau bwyd, na helpu cleifion i'w bwyta. Mae'r staff nyrsio yn gweini pob cwrs bwyd yn ei dro, er mwyn sicrhau na chaiff cleifion ormod o fwyd o'u blaenau ar y tro. Un fantais yw bod bwyd bob amser yn aros ar y tymheredd priodol nes iddo gael ei weini. Bydd nyrsys unigol yn camu'n ôl o weini prydau bwyd pan fyddant yn cyrraedd y cleifion hynny sydd angen cymorth i fwyta. Maent yn aros i helpu'r cleifion hynny wrth i weddill y tîm barhau i weini bwyd.

- 2.35** Defnyddir system hambwrdd coch yn y rhan fwyaf o ysbytai i nodi'n gyflym y cleifion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod amser bwyd oherwydd anawsterau bwyta neu am nad ydynt yn bwyta digon. Mae'r hambwrdd coch yn tynnu sylw staff y ward at gleifion sydd angen cymorth, gan sicrhau na chaiff prydau bwyd cleifion eu casglu'n rhy gynnar ac y caiff cymeriant bwyd ei fonitro a'i gofnodi. Mae'r system yn dibynnu ar y ffaith bod staff nyrsio ac arlwygo yn deall pa gleifion sydd angen cymorth ac yn cyfathrebu â'i gilydd. Mewn llawer o ysbytai, mae timau deietegol wedi rhoi hyfforddiant i staff arlwygo ar y ward ynglŷn â rheoli maeth da, a oedd yn cynnwys pwysigrwydd

systemau i nodi cleifion sydd ag anghenion maeth. Lle y cyflwynwyd hyfforddiant o'r fath, dywedodd staff deietegol wrthym bod ansawdd y gwasanaeth prydau bwyd wedi gwella.

- 2.36** Fodd bynnag, daeth archwilwyr ar draws sawl enghraifft lle nad oedd y system hambwrdd coch yn gweithio yn ôl y bwriad am nad oedd staff arlwygo neu staff nyrsio dros dro bob amser yn ymwybodol bod ward wedi newid y ffordd yr oedd y system hambwrdd coch yn gweithio i ddiwallu anghenion penodol rhai cleifion, er enghraifft defnyddio'r system ar gyfer cleifion sydd angen cymorth i fwyta yn unig.
- 2.37** Dywedodd rhai prif nyrsys wrthym hefyd eu bod yn credu y gall y system hambwrdd coch gael effaith negyddol ar urddas claf am ei bod yn gwneud i'r cleifion hyn ymddangos yn wahanol. Ar wardiau lle na ddefnyddiwyd y system hambwrdd coch, gwelsom nifer o ffyrdd amgen, ac arloesol yn aml, o nodi cleifion yr oedd angen cymorth arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys napcynau coch, matiau gwrthlithro coch ac arwyddion wrth ymyl y gwely, megis sêr coch, arwyddion coch a hysbysiadau goleuadau traffig. Un o fanteision rhai o'r systemau amgen hyn oedd eu bod wrth ymyl gwelyau cleifion drwy'r amser (yn hytrach na chael eu defnyddio yn ystod amser bwyd yn unig) a'u bod yn gwneud i aelodau eraill o staff, megis meddygon, fod yn ymwybodol o broblemau maeth heb fod angen iddynt gyfeirio at nodiadau cleifion.

Rhan 3 – Mae angen i reolwyr gael ffocws cliriach ar gostau gwasanaethau arlwygo er mwyn deall yr amrywiadau a geir yn sefydliadau'r GIG yn well a lleihau faint o fwyd a wastreffir sy'n dal i fod yn annerbyniol o uchel ar lawer ward

3.1 Y llynedd gwariodd GIG Cymru tua £60 miliwn ar ei wasanaethau arlwygo mewn ysbytai gan ddarparu prydau bwyd i gleifion, staff ac ymwelwyr. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen i sefydliadau'r GIG gynnal ansawdd, a sicrhau gwerth am arian a rheolaethau costau da. Mae'r adran hon yn ystyried costau cyffredinol gwasanaethau arlwygo mewn ysbytai.

Mae'r wybodaeth ariannol am wasanaethau arlwygo'n wael fel arfer a lle mae ar gael mae'n dangos amrywiadau sylweddol o ran costau o fewn a rhwng sefydliadau'r GIG

3.2 Nododd adroddiad 2002 y Comisiwn Archwilio yng Nghymru fod angen gwella ansawdd ac argaeledd gwybodaeth ariannol am wasanaethau arlwygo. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim tystiolaeth yn dangos bod gwelliannau wedi'u gwneud. Mae angen gwybodaeth gynhwysfawr i'w gwneud yn bosibl i gynllunio, darparu gwasanaethau a monitro perfformiad yn well. Ychydig o gynnydd a wnaed o ran cyfrifiaduro systemau arlwygo ysbytai ac mae'r rhan fwyaf o'r systemau rheoli gwybodaeth arlwygo cyfredol yn dibynnu ar brosesau papur â llaw. Mae'r systemau hyn â llaw yn defnyddio llawer o


adnoddau, yn cyflwyno risgiau o ran ansawdd data ac yn cyfyngu ar bryd y bydd gwybodaeth ar gael i lywio penderfyniadau busnes a chyflawni.

3.3 Yn 2002, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) fel ffordd o roi gwybodaeth gymharol i'r gwasanaeth ar nifer o ystadau a chyfleusterau'r GIG, gan gynnwys arlwygo mewn ysbytai. Crynhoir ffurflenni data oddi wrth gyrff y GIG gan Stadau Iechyd Cymru mewn Adroddiad blynyddol ar Berfformiad Cyfleusterau. Fodd bynnag, er mai cyrff y GIG sy'n gyfrifol am ddilysu'r data, bu gan Stadau Iechyd Cymru, sy'n rheoli'r EFPMS, bryderon ers amser o ran cywirdeb, cysondeb a dibynadwyedd peth o'r data a gyflwynwyd iddo. Mae ffurflenni EFPMS rhai byrddau iechyd yn seiliedig ar gostau amcangyfrifedig ac nid yw'r ffordd y caiff costau eu dosrannu ar gyfer bwyd a diod a nwyddau eraill bob amser yn gyson. O ganlyniad, amheuir cadernid y data cymharol ac nid yw'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan reolwyr arlwygo naill ai wrth reoli eu gwasanaethau o ddydd i ddydd neu wrth feincnodi gwasanaethau'n ehangach.



- 3.4** O ystyried y pryderon hyn, casglwyd ein data ein hunain ar gostau arlwygo yn seiliedig ar ddiffiniadau clir o'r hyn yr oedd angen ei gynnwys yn y ffurflenni ariannol. Er bod y rhan fwyaf o gyrff y GIG yn gallu darparu'r data ariannol angenrheidiol yn y pen draw, nid oedd yn broses syml ac roedd angen i'r rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG ailgyflwyno eu data ariannol o leiaf unwaith i gywiro camgymeriadau. Nid oeddem yn gallu casglu data ar bob safle ysbyty mawr yng Nghymru gan nad oedd systemau ariannol rhai sefydliadau'r GIG yn gadael iddynt ddadgyfuno costau gwasanaethau arlwygo i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gan amlygu'r graddau nad oedd systemau gwybodaeth ariannol wedi'u datblygu yn y sefydliadau hyn.
- 3.5** Mae'n bwysig y gall sefydliadau'r GIG feincnodi eu gwasanaethau arlwygo o ran ansawdd a gwerth am arian a dylai cronfa ddata EFPMS roi'r cyfle i wneud hynny. Dim ond os caiff ei defnyddio gan gyrff y GIG, rheolwyr arlwygo a Llywodraeth y Cynulliad i godi cwestiynau am y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu y bydd cywirdeb gwybodaeth yn gwella. Yn ein gwaith ni welwyd fawr ddim tystiolaeth bod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio mewn ffordd adeiladol i wella gwasanaethau arlwygo ar unrhyw lefel.
- 3.6** Yn ôl ein dadansoddiad, a oedd yn gyfyngedig i wasanaethau mewn ysbytai aciwt, roedd gwasanaethau arlwygo ar y safleoedd hyn yn costio £26.2 miliwn yn 2009-10. Roedd costau staff yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair (64 y cant) o'r gwariant.
- 3.7** Fodd bynnag, gwelwyd amrywiadau mawr o ran costau gwasanaethau arlwygo cleifion ar draws ysbytai Cymru ac o fewn byrddau iechyd. Costiodd gwasanaethau arlwygo cleifion £9.85 ar gyfartaledd fesul diwrnod claf, gan amrywio o £5.99 fesul diwrnod claf yn Ysbyty Felindre i £17.54 fesul diwrnod claf yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (**Ffigur 5**). Nid yw'r gwahanol fodolau o wasanaeth o reidrwydd yn egluro'r amrywiadau mewn costau arlwygo, er bod costau yn uwch yn y rhan fwyaf o ysbytai sy'n defnyddio cynorthwywyr arlwygo ar y ward (**Ffigur 6**). Mae **Atodiad 6** yn darparu mwy o wybodaeth am y mathau o systemau arlwygo a ddefnyddir yn ysbytai Cymru.


Ffigur 5 – Gwelwyd amrywiad cymaint deirgwaith yng nghostau gwasanaethau arlwygo cleifion mewn ysbytai yn 2009-10



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a gweithgarwch a ddarparwyd gan fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre



Ffigur 6 – Nid yw'r gwahanol fodolau o wasanaeth o reidrydd yn egluro'r amrywiadau mewn costau arlwygo




- * WBC – staff arlwygo ar y ward yn gyfrifol am weini prydau bwyd, y cynorthwyr rhai ohonynt gan staff nyrsio.
- ** 3.84 o staff arlwygo cyfwerth ag amser cyflawn ar ddwy ward, yn cyfrif am 13 y cant o'r holl gostau staff arlwygo yn yr ysbyty.
- *** Confensiynol a choginio/rhewi 1.91 o staff arlwygo cyfwerth ag amser cyflawn, sy'n cyfrif am 5 y cant o'r holl gostau arlwygo cleifion yn yr ysbyty.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a gweithgarwch a ddarparwyd gan fyrdau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre

3.8 Er bod contractau safonol yn cael eu defnyddio'n helaeth i gaffael bwyd a diod, ceir gwahaniaethau mawr o hyd mewn costau darparu rhwng ysbytai. Ar gyfartaledd, mae ysbytai yn gwario £3.16 ar fwyd a diod fesul claf y dydd. Unwaith eto, roedd costau'n amrywio rhwng ac o fewn cyrff y GIG (Ffigur 7). Mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall y rhesymau sylfaenol dros yr

amrywiadau hyn a allai fod yn gysylltiedig â chynnwys bwydlen neu ddulliau cynhyrchu. Er bod y rhan fwyaf o reolwyr arlwygo yn trafod lwfans dyddiol tybiannol ar gyfer prydau bwyd cleifion, dim ond un bwrdd iechyd (Blwch 5) a oedd yn defnyddio lwfans y cytunwyd arno at ddibenion cynllunio a monitro ac a oedd yn glir o ran manteision penodol y dull hwn o weithredu.

Ffigur 7 – Roedd costau darparu'n amrywio cymaint bedair gwaith rhwng ysbytai yn 2009-10



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a gweithgarwch a ddarparwyd gan fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre




Blwch 5 – Pennu costau bwyd dyddiol

Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi pennu lwfans bwyd dyddiol o £3.85 fesul claf, sydd ar wahân i gostau staffio ar gyfer rhedeg y gwasanaeth. Mae'r lwfans bwyd dyddiol yn seiliedig ar ddadansoddiad yr adran arlwygo ei hun o'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni fframwaith arlwygo a maeth y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar fwydlenni wedi'u costio, rhagamcanion caffael a'r galw yn y gorffennol. Teimla rheolwyr arlwygo'r Bwrdd Iechyd fod pennu lwfans bwyd dyddiol cytûn wedi rhoi cymhelliad i ddarparu gwasanaeth cost-ffeithiol o safon dda sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion wardiau ac anghenion cleifion.

3.9 Archwiliwyd a oedd unrhyw berthynas rhwng y swm a wariwyd ar fwyd cleifion a'r sgoriau boddhad a nodwyd drwy ein harolwg o gleifion. Dengys **Ffigur 8** nad oedd perthynas amlwg. At hynny, gwelwyd un o'r sgoriau boddhad gorau ymhlith cleifion yn y corff a oedd â'r costau darparu isaf. Yn yr un modd, nid oedd perthynas glir rhwng canlyniadau ein paneli blasu a gwariant ar fwyd a diod cleifion.

Ffigur 8 – Nid oes perthynas amlwg rhwng sgoriau boddhad cleifion a gwariant ar fwyd cleifion



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol ddarparwyd gan fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre a chyfraddau boddhad cleifion

Mae gwasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn cael cymhorthdal, a hynny'n ddiarwybod yn y rhan fwyaf o achosion

- 3.10** Yn ogystal â darparu bwyd ar gyfer cleifion, bydd ysbytai hefyd yn darparu gwasanaethau arlwyio i staff ac ymwelwyr a defnyddir yr incwm a gynhyrchir gan y gwasanaethau arlwyio hyn i'r rhai nad ydynt yn gleifion, ynghyd â'r incwm o letygarwch a pheiriannau gwerthu i wrthbwyso costau arlwyio cyffredinol fel arfer.
- 3.11** Gwariwyd cyfanswm o £12 miliwn ar gostau gwasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion (bwyd a diod, nwyddau eraill a staff) mewn ysbytai aciwt yng Nghymru yn 2009-10. Fodd bynnag, roedd cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd gan yr ysbytai yr ymwelwyd â hwy ond yn ddigon i adennill 80 y cant o'r costau hyn. Golyga hyn fod yr ysbytai hyn gydia'i gilydd yn rhoi cymhorthdal o £2.5 miliwn i wasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Mae hyn yn cyfateb i wario £0.92 yn ychwanegol fesul claf y dydd ar gyfartaledd ar wasanaethau arlwyio cleifion.
- 3.12** Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan oedd yr unig sefydliad i gynhyrchu digon o incwm yn 2009-10 i adennill ei holl gostau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion a gwneud elw yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall (Ffigur 9). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati mewn ffordd gyfannol i reoli gwasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion drwy bennu un strwythur prisiau ar gyfer prydau bwyd i'r rhai nad ydynt yn gleifion sy'n fforddiadwy i gwsmeriaid ond sydd hefyd yn sicrhau bod costau, ac incwm, wedi'u brocera ar draws y Bwrdd Iechyd (Blwch 6).

- 3.13** Mae angen i'r rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG gynyddu incwm o wasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion rhwng 14 y cant a 45 y cant er mwyn adennill costau yn y dyfodol. Mae hyn yn debygol o fynd yn anos yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Dengys ein dadansoddiad ddarlun cymysg gyda chyfanswm yr incwm yn gostwng dau y cant rhwng 2008-09 a 2009-10, gyda gostyngiad o 29 y cant mewn incwm o beiriannau gwerthu. Dim ond chwech o'r 19 o ysbytai yr ymwelwyd â hwy a oedd wedi cynyddu lefelau incwm o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Blwch 6 – Gwasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion ym Mwrdd Iechyd Aneurin

Drwy Fanyleb Gwasanaethau Bwyd ei adran arlwyio sefydlodd y Bwrdd Iechyd fodel safon busnes a rheoli ariannol ar gyfer ei wasanaethau bwyd i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Y prif nod oedd sicrhau nad oedd cyllid a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau arlwyio i'r cleifion yn cael ei ddefnyddio i gymorthdal prydau bwyd i'r rhai nad oeddent yn gleifion. Mae'r model yn seiliedig ar fwydleni safonol a phrisio cyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Ar ôl i angen am wasanaeth penodol yn yr ysbyty gael ei nodi, mae cost darparu'r gwasanaeth yn seiliedig ar wireddu'r incwm mwyaf posibl ym mhob man gwerthu.


Cyfrifir prisiau prydau bwyd unigol drwy ddefnyddio proses sy'n cymharu'r farchnad â chostau cynhyrchu ond hefyd yr hyn y mae cwsmeriaid yn barod i'w dalu a dadansoddiad o'r hyn y gall y gwasanaeth arlwyio ei gynhyrchu o fewn incwm penodol.

Ceir polisi prisio deuol. Dangosir y prisiau uwch i ymwelwyr yn glir yn Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent ond ceir rhestr o'r prisiau gostyngol ar gyfer staff hefyd i'r rhain sy'n hoffi gwybod yr hyn sydd i'w dalu. Os yw staff yn dangos eu bathodyn adnabod maent yn cael gostyngiad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn system rheoli man gwerthu electronig, sy'n ei gwneud yn bosibl i brisiau a godir wrth y man talu gael eu rheoli'n ganolog, gan ymateb yn gyflym i newidiadau mewn prisiau. Mae hefyd wedi gwella'r wybodaeth sydd ar gael am fasnacholdeb rhai cynhyrchion.



Ffigur 9 – Dim ond un o sefydliadau'r GIG a gynhyrchoedd ddigon o incwm yn 2009-10 i adennill costau darparu gwasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion a gwneud elw



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a ddarparwyd gan fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre

3.14 Mater i sefydliadau unigol y GIG yw penderfynu a ddylai gwasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion gael cymhorthdal neu a ddylent adennill costau neu wneud elw er mwyn gwrthbwysu costau arlwyio cleifion, er yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni gallai fod yn rhesymol disgwyl i wasanaethau i'r rhai nad ydynt yn gleifion adennill costau o leiaf ac ni ddylai gwasanaethau i'r rhai nad ydynt yn gleifion gael cymhorthdal, a hynny'n ddiamwybod i gyrff y GIG.

3.15 Er i Fframwaith Maeth ac Arlwyio 2002 Llywodraeth y Cynulliad argymhell y dylai polisiâu maeth ac arlwyio gynnwys 'datganiad

cyfredol' am gymhwyso cymorthdaliadau i staff ac ymwelwyr', canfuwyd nad oedd dim un o gyrff y GIG wedi datblygu polisi ynglŷn â chymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau arlwyio i'r rhai nad ydynt yn gleifion. At hynny, nid oedd cyrff y GIG wedi cytuno ar y ffordd y dylai incwm gyfrannu at wrthbwysu costau arlwyio ym mhob ysbyty neu ar y cyd. Roedd disgwyl i'r rhan fwyaf o adrannau arlwyio gynhyrchu lefelau incwm a oedd yn cyfateb i incwm y flwyddyn flaenorol neu'n rhagori arno. Dim ond tri o sefydliadau'r GIG oedd yn glir o ran yr angen i adennill costau, gydag un ohonynt wedi mynd ati i ddileu'r cymhorthdal.


Mae'r lefelau o fwyd a wastreffir yn dal i fod yn annerbyniol o uchel ar lawer ward

3.16 Gall gwastraff bwyd ddigwydd ar amrywiol gamau yn y llwybr arlwygo – ar y cam cynhyrchu, o brydau bwyd wedi'u rhoi ar blât ond heb eu gweini, ac o fwyd a adawyd ar blatiau cleifion ar ôl iddynt fwyta. Mae lleihau gwastraff bwyd yn bwysig o ran rheoli costau gwasanaethau arlwygo mewn ysbytai. Y ffordd orau o weithredu'r rheolaethau hyn yw drwy

bennu targedau ar gyfer gwastraff bwyd a rhoi prosesau rheolaidd ar waith i fonitro gwastraff yn erbyn y targedau hyn.

3.17 Awgryma data a gasglwyd gan Stadau Iechyd Cymru fod wyth y cant o brydau bwyd i gleifion a gynhyrchwyd yn 2009-10 heb eu cyffwrdd¹². Fodd bynnag, drwy ddefnyddio'r un fethodoleg canfuwyd gennym fod gwastraff prydau bwyd heb eu gweini yn uwch sef tua 15 y cant gydag amrywiadau mawr ar draws wardiau ac ysbytai, yn amrywio o ddim y cant ar rai wardiau i 62 y cant ar ward arall (Ffigur 10).

Ffigur 10 – Ar gyfartaledd, gwastreffir un o bob chwe phryd bwyd i gleifion



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata a gasglwyd wrth arsylwi ar wardiau

¹² Stadau Iechyd Cymru, Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau 2009/10, 2010



- 3.18** Nid yw'n amlwg pam bod cymaint o wahaniaeth rhwng ein ffigurau ni ar wastraff bwyd a'r ffigurau a gyflwynwyd i Stadau Iechyd Cymru. Mae diffiniadau lleol o'r hyn sy'n cyfateb i bryd o fwyd wedi'i wastraffu yn debygol o chwarae rhan yn hyn o beth. Dywedodd staff arlwygo mewn un ysbyty yr ymwelwyd ag ef nad yw prydau bwyd sy'n cael eu 'gweini' i'r ward yn cael eu cyfrif fel gwastraff, p'un a oes claf i dderbyn y pryd ai peidio.
- 3.19** Nododd ein gwaith archwilio nifer o resymau sy'n cyfrannu at wastraff o brydau bwyd nas gweinwyd:
- a** staff ward yn archebu gormod o brydau bwyd ar ran eu cleifion am na ddefnyddir ffurflenni bwydlen unigol i roi amcan cywir o nifer y prydau bwyd sydd eu hangen;
 - b** dosbarthu prydau bwyd i wardiau mewn hambyrddau o faint penodol, er enghraifft efallai y caiff hambwrdd o 12 o brydau bwyd ei roi ond dim ond chwech neu lai o brydau bwyd sydd eu hangen; a
 - c** phan archebir prydau bwyd ddiwrnod ymlaen llaw, nid oedd digon o gyfathrebu rhwng y ward a'r adran arlwygo i hysbysu'r gegin bod angen llai o brydau bwyd os oedd cleifion wedi cael eu rhyddhau.
- 3.20** Casglodd yr archwiliad wybodaeth hefyd am wastraff a adawyd ar ôl i gleifion orffen eu bwyd. Ceir anawsterau ymarferol amlwg i ysbytai o ran ceisio mesur y math hwn o wastraff, ac o ganlyniad nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rheol. Fodd bynnag, gwelsom gryn dipyn o wastraff ar blatiau. Ar gyfartaledd roedd tua 22 y cant o'r bwyd a weinwyd i gleifion heb ei fwyta. Mae nifer o resymau yn cyfrannu at wastraff ar blatiau:
- a** bydd cyflwr meddygol cleifion yn dylanwadu ar eu harchwaeth, beth maent yn ei flasau a faint o fwyd y gellir ei fwyta ar y tro;
 - b** cyfrannau rhy fawr i gleifion eu bwyta;
 - c** cleifion sydd angen cymorth i fwyta eu pryd o fwyd yn methu â chael y cymorth angenrheidiol;
 - d** nid yw amgylchedd y ward yn helpu cleifion i fwynhau eu bwyd (er enghraifft oherwydd arogleuon, sŵn neu achosion eraill o darfu);
 - e** bwyd nad yw wedi'i gyflwyno mewn ffordd ddymunol a/neu nad yw'n blasu'n dda; a
 - f** diffyg dewis ar y fwydlen.
- 3.21** Yr hyn sy'n bwysig yw bod staff y ward a staff arlwygo yn deall y rhesymau pam nad yw cleifion yn bwyta eu bwyd fel y gellir cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r broblem, gan leihau gwastraff a gwella maeth.
- 3.22** Mae pob adran arlwygo yn monitro ac yn cofnodi'r nifer o brydau bwyd nas gweinwyd rywbryd yn ystod y flwyddyn ond mae amlder cofnodi yn dibynnu ar y dulliau o gynhyrchu bwyd neu'r trefniadau ar gyfer gweini prydau bwyd i gleifion. Mae staff arlwygo ar y ward, sy'n ailgynhyrchu cynhyrchion wedi'u coginio a'u rhewi neu wedi'u coginio a'u hoeri, fel arfer yn cofnodi nifer y cyfrannau o fwyd nas gweinwyd ar ôl pob pryd o fwyd (**Blwch 7**). Tueddir i'r ffurflenni monitro hyn gael eu hadolygu bob dydd gan reolwyr arlwygo i nodi a oes gormod o fwyd yn cael ei baratoi.

3.23 Mewn ysbytai lle mae staff arlwygo yn paratoi bwyd o'r cychwyn bob dydd, neu lle mae staff nyrsio yn gyfrifol am weini prydau bwyd i gleifion, mae staff arlwygo yn haparchwilio nifer y prydau bwyd nas gweinwyd ac a ddychwelwyd i'r gegin ar ôl gweini'r bwyd. Fodd bynnag, awgryma ein harsylwadau fod gwendidau posibl yn y dull haparchwilio mewn rhai ysbytai. Nid oedd yn anghyffredin i staff nyrsio 'daflu' prydau bwyd nas gweinwyd cyn i'r troli prydau bwyd gael ei ddychwelyd i'r gegin gan ei gwneud yn anodd i asesu'r gwir wastraff.

Blwch 7 – Monitro gwastraff bwyd nas gweinwyd yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Mae staff arlwygo yn cofnodi nifer y cyfrannau nas gweinwyd ar ddiwedd pob pryd o fwyd. Un diwrnod bob mis, cyfrifir cost pob cyfran nas gweinwyd y dydd, i ginio a swper. Mae gwastraff misol yn amrywio rhwng 11 y cant ac 21 y cant ac mae cost y gwastraff hwn y dydd yn amrywio o £9.66 i £19.40. Cafwyd cyfartaledd gwastraff o 14 y cant yn 2009-10 gyda chost gyfartalog o £14.81 y dydd. O ran bwyd a diod, mae hyn yn cyfateb i £5,800 y flwyddyn neu naw y cant o gostau bwyd a diod. Yn ogystal â monitro tueddiadau yn y cyfradd blynyddol o ran gwastraff a'i gost, mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r wybodaeth i ddeall y ffactorau sy'n cyfrannu at y gwastraff er mwyn gwella gwasanaethau.

3.24 Ystyrir mai tasg i'r adran arlwygo yw rheoli gwastraff bwyd, yn enwedig gan fod costau bwyd yn cael eu hariannu o'r gyllideb arlwygo. Hefyd, yn anaml iawn mae adrannau arlwygo yn darparu gwybodaeth i brif nyrsys am lefelau gwastraff ar gyfer eu wardiau perthnasol. O ganlyniad, nid yw staff y tu allan i'r adrannau arlwygo yn 'gyfrifol' am y broblem, gan ei gwneud yn anodd i fynd i'r afael ag achos sylfaenol gwastraff. Er mwyn i fyrddau iechyd sicrhau arbedion drwy leihau gwastraff bwyd yna bydd angen iddynt feithrin diwylliant a threfniadau gwaith lle mae pob grŵp staff perthnasol yn rhan o'r broses o wella'r gwasanaeth. Ar rai wardiau yr ymwelwyd â hwy, gwelwyd tystiolaeth bod staff y ward a staff arlwygo wedi mynd ati i fynd i'r afael â'r broblem ond nid oedd hyn yn arferol.

3.25 Er nad yw'n ymarferol lleihau gwastraff bwyd i ddim, dylid gosod targedau heriol priodol yn lleol ac yn genedlaethol i helpu i roi mwy o ffocws ar leihau gwastraff bwyd. Roedd cost y prydau bwyd nas gweinwyd ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy tua £1.5 miliwn y flwyddyn. Pe gallai'r wardiau hyn leihau gwastraff prydau bwyd nas gweinwyd yn unol â'r chwarter gorau yn ein sampl (sy'n cyfateb i naw y cant o wastraff) gellid gwneud arbedion o fwy na £758,000. Mae'r arbedion hyn ond yn ymwneud â sampl o 62 o wardiau. Byddai'r ffigur hwn yn cynyddu'n sylweddol o ystyried pob ysbyty aciwt ac ysbyty cymuned ledled Cymru.

3.26 Gellid sicrhau arbedion pellach drwy gymryd camau i leihau gwastraff o fwyd heb ei fwyta ar blatiau cleifion. Mae'n anodd mesur cost gwastraff ar blatiau a'r arbedion posibl cysylltiedig gan y bydd yn dibynnu ar barrannau o'r pryd a wastreffir. Eto i gyd, awgryma'r ffigurau gwastraff ar blatiau a gasglwyd yn ystod yr archwiliad y bydd y gost i'r GIG a'r arbedion posibl yn sylweddol.



Rhan 4 – Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu fframweithiau cenedlaethol a lleol cliriach ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau arlwy, a sicrhau y caiff y rhain eu llywio gan farn cleifion

4.1 Bydd yn haws gwneud gwelliannau i arlwy a maeth cleifion mewn ysbytai os ceir canllawiau polisi cenedlaethol clir a safonau gwasanaeth sy'n adlewyrchu arfer da cydnabyddedig. Yna bydd angen i sefydliadau unigol y GIG roi'r cynlluniau, y gweithdrefnau a'r dulliau monitro angenrheidiol ar waith i weithredu'r canllawiau hyn ac i adolygu pa mor dda y caiff gwasanaethau eu darparu mewn gwirionedd. Bydd hyn yn golygu y bydd staff, yn genedlaethol ac yn lleol, o wahanol ddisgyblaethau yn cydweithio i sicrhau bod gwasanaethau arlwy a maeth yn cael y proffil angenrheidiol a bod holl elfennau allweddol llwybrau arlwy a maeth yn gweithio yn ôl y disgwyl. Mae'r adran hon o'r adroddiad hwn yn edrych ar y cynnydd a wnaed o ran datblygu fframweithiau cenedlaethol a lleol clir ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau arlwy.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu nifer o fentrau polisi sydd â'r nod o wella arlwy mewn ysbytai a maeth cleifion

4.2 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn amlwg wedi cydnabod pwysigrwydd arlwy a maeth fel rhan hanfodol o'r gofal a roddir i gleifion yn yr ysbyty. Dros y degawd diwethaf, bu nifer o fentrau polisi a oedd yn ymwneud ag arlwy mewn ysbytai a maeth cleifion, gan ddechrau

gyda *Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun ar gyfer y GIG a'i Bartneriaid*, a gyhoeddwyd yn 2001. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, gan gynnwys elfennau megis gwasanaethau arlwy mewn ysbytai. Disgrifiodd y ddogfen hon beth y dylai cleifion ei ddisgwyl mewn perthynas ag arlwy, megis prydau bwyd maethlon sy'n gadarn yn ddeietegol, a gofynnwyd i ymddiriedolaethau'r GIG gymryd nifer o gamau gweithredu, megis datblygu manylebau gwasanaeth ar gyfer arlwy.

4.3 Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau manylach yn y *Fframwaith Maeth ac Arlwy* a oedd yn cynnwys safonau eang eu cwmpas ar gyfer diogelwch bwyd, cynllunio bwydlenni a chynnwys maethol, asesiadau maethol, cynlluniau a pholisïau gweithredol a chyfrifoldebau rheolwyr. Bu'r fframwaith yn sail i ddiwygiadau i Safon 23 Rheoli Risg Cymru ar gyfer maeth ac arlwy, ac aseswyd cydymffurfiaeth â'r safon hon gan Gronfa Risg Cymru¹³.

4.4 Yn 2005, cyflwynwyd *Safonau Gofal Iechyd Cymru*. O dan Safon 9 roedd yn ofynnol i sefydliadau gofal iechyd a oedd yn darparu bwyd roi systemau ar waith ar gyfer paratoi prydau bwyd â chynnwys maeth cytbwys a oedd wedi'u paratoi'n ddiogel ac a oedd yn diwallu anghenion cleifion neu'n bodloni eu dymuniadau. Disodlwyd Safon Rheoli Risg 23

¹³ Sefydlwyd Cronfa Risg Cymru fel system gyfunol i ad-dalu colledion i sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Hefyd, mae'n helpu sefydliadau gofal iechyd i sefydlu systemau a phrosesau i reoli risg. Mae'n cynnal ac yn asesu cydymffurfiaeth â Safonau Rheoli Risg Cymru.

gan Safon Gofal Iechyd 9 i bob diben ond nid arweiniodd o reidrwydd at y gwelliannau mewn gwasanaethau a ragwelwyd. Nododd rheolwyr arlwygo fod y Safon Gofal Iechyd wedi arwain at roi llai o sylw ar nifer o elfennau allweddol o wasanaethau arlwygo o safon dda a oedd wedi cael eu cwmpasu'n llawn yn fframwaith 2002 a'r safon rheoli risg gysylltiedig.

- 4.5** Cyhoeddwyd *Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu* yn 2008. Mae'n amlinellu argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Grymuso Prif Nyrsys a sefydlwyd yn 2007 gan Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gwella'r amgylchedd gofal a phrofiad cleifion. Mae nifer fach o'r argymhellion yn berthnasol i faeth cleifion, yn enwedig yr angen am lwybr gofal maeth Cymru gyfan a siart bwyd Cymru gyfan. Argymhellodd y grŵp hefyd y dylid datblygu offeryn archwilio i Gymru gyfan i fesur cydymffurfiaeth â safonau Hanfodion Gofal 2003, a gyflwynwyd i wella ansawdd agweddau penodol ar Iechyd a gofal cymdeithasol. Mae un o'r safonau Hanfodion Gofal yn ymwneud yn benodol â bwyta ac yfed, megis asesu anghenion maeth cleifion, gan sicrhau amgylchedd sy'n addas ar gyfer bwyta a helpu'r cleifion hynny sydd angen cymorth.
- 4.6** Cyhoeddwyd *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* yn 2010. Mae'r safonau gofal Iechyd diwygiedig bellach yn dwyn ynghyd y Llwybr Gofal Maeth a Fframwaith Maeth ac Arlwygo 2002. Fodd bynnag, nid yw'r olaf wedi cael ei adolygu ers iddo gael ei gyhoeddi ac mae angen iddo gael ei ddiweddarau i adlewyrchu'n llawn fentrau polisi a chanllawiau diweddar, strwythurau newydd y GIG yng Nghymru a phenderfyniad Cyngor Ewrop ar fwyd a gofal maeth mewn ysbytai.

Mae rhai mentrau polisi sydd â'r nod o wella maeth cleifion yn dechrau gwneud gwahaniaeth a gellid gwireddu mwy o fanteision pe baent yn cael eu dwyn ynghyd o dan un fframwaith

- 4.7** Er nad yw'r datblygiadau polisi a'r cyhoeddiadau a nodir uchod yn gwrth-ddweud ei gilydd o gwbl, maent yn gyfres braidd yn ddatgysylltiedig o fentrau a byddai'n fuddiol pe baent yn cael eu dwyn ynghyd yn un fframwaith cydlynol ar gyfer arlwygo a maeth mewn ysbytai. Mae'r fframwaith a ddatblygwyd yn 2002 yn rhoi sail i hyn ond mae angen ei gysylltu â chanllawiau ar y llwybr gofal maeth, a'r arferion a nodir yn *Hanfodion Gofal a Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu*. Gellir hefyd ddefnyddio adnoddau'r rhyngwrwyd fel ffordd o ddwyn ynghyd yr holl ganllawiau perthnasol yn un man, a'u datblygu ymhellach drwy ddefnyddio astudiaethau o arfer da o Gymru a gwledydd eraill.
- 4.8** Er mwyn dwyn ynghyd y gwahanol elfennau o ganllawiau ar arlwygo a maeth cleifion bydd angen i wahanol ganghennau Llywodraeth y Cynulliad gydweithio'n agosach na chynt. Bydd fframwaith sy'n cwmpasu'r llwybr arlwygo a maeth cyfan yn berthnasol i swyddogion sy'n gyfrifol am gyfleusterau, bwyd a gweithgarwch corfforol a gwasanaethau nyrsio. Bydd ymagwedd gydgyssylltiedig a chydlynol o'r canol yn helpu cyrff lleol y GIG i weithredu'r mesurau angenrheidiol.



- 4.9** Un canfyddiad calonogol o'n gwaith oedd y dystiolaeth bod mentrau polisi megis *Rhyddid i Arwain*, *Rhyddid i Ofalu* yn cael effaith gadarnhaol drwy annog prif nyrsys i ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb am faeth cleifion. Er nad oedd yn ganfyddiad cyson, canfuwyd nifer o enghreifftiau o uwch nyrsys yn cymryd camau i hyrwyddo pwysigrwydd gofal maeth ar y wardiau er mwyn sicrhau bod y llwybr gofal maeth yn cael ei gyflwyno. Roedd sawl prif nyrs wedi cyflwyno mentrau ategol megis gweithredu system o nyrsys cyswllt i hyrwyddo gofal maeth da, a chyflwyno rôl cynorthwywyr maeth lle mae nyrs heb gymhwyso wedi cael hyfforddiant penodol ar faeth er mwyn cefnogi tîm y ward.
- 4.10** Un cyfraniad pwysig i'r cynnydd a wnaed yw creu fforwm pwysig lle gall prif nyrsys gyfnewid arfer da a dysgu gan eraill. Datblygwyd fforwm o'r fath yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd, gyda nyrsys yn adolygu eu dulliau gweithredu yn feirniadol¹⁴, gan fynd i'r afael â phroblemau ar y cyd a nodi sut y gellir atgyfnerthu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.
- 4.11** Bydd hyfforddiant yn ffactor allweddol o ran gweithredu'r arferion gofynnol ar y ward. Yn 2009, cyflwynodd y Coleg Nyrsio Brenhinol, mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad, raglen hyfforddiant '*Nutrition Now*' i helpu i godi'r safonau gofal maeth a hydradu. Cafodd y rhaglen hyfforddiant hon groeso da ac mewn llawer o leoliadau roedd yn cynnwys pawb a oedd yn gyfrifol am ddarparu prydau bwyd a gofal maeth. Mae rhai byrddau iechyd wedi adeiladu ar y rhaglen hon (**Blwch 8**).

Blwch 8 – Nutrition Matters

Yn 2009, cynhyrchodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan becyn gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer staff ward a'i lansio. Cynhyrchodd yr Adran Ddeietegol adnodd 'Nutrition Matters' ar gyfer staff nyrsio i helpu i reoli maeth cleifion yn well. Mae'r adnodd hwn yn amlinellu 10 neges allweddol ar gyfer rheoli maeth yn well ac mae'n rhoi cymorth a gwybodaeth ymarferol ar gyflawni'r Llwybr Maeth i Ysbytai. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys defnyddio offeryn sgrinio MUST a siartiau cyfrifo mynegai màs y corff, siart llif archwaeth gwael a system hambwrdd coch a system goleuadau traffig maeth y Bwrdd Iechyd, canllawiau siart bwyd a diod a darparu bwyd rhwng prydau bwyd. Gan adeiladu ar yr adnodd hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu tudalen Nutrition Matters ar ei fewnwyd lle gall prif nyrsys deilwra'r adnoddau i ddiwallu eu hanghenion penodol a gellir rhannu arfer da yn ehangach. Yn ystod ein gwaith archwilio, nododd staff nyrsio pa mor ddefnyddiol fu Nutrition Matters o ran gwella'r ffordd yr oedd maeth cleifion yn cael ei reoli a'i fod yn adnodd a ddefnyddiwyd yn helaeth.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG yn parhau i ddatblygu eu strategaethau ar gyfer gwasanaethau arlwygo a maeth cleifion

- 4.12** Dylai sefydliadau'r GIG roi strategaethau, cynlluniau a pholisïau ar waith sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau arlwygo mewn ysbytai ac yn gwella maeth cleifion yn unol ag arfer da cydnabyddedig a'r gofynion a nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Dylai'r cynlluniau strategol a gweithredol hyn gael eu datblygu gyda chyfraniad gan bob grŵp proffesiynol sy'n ymwneud ag arlwygo a maeth cleifion a dylent nodi dulliau priodol o fesur cynnydd a chyflawni, gan gynnwys casglu barn cleifion a'u teuluoedd.

¹⁴ Mould J, 'Nurses must take control of the nutritional needs of patients.' *British Journal of Nursing* 2009 Cyfrol 18 Rhif 17

- 4.13** Cymysg yw'r darlun presennol o ran cynllunio gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn strategol. Mewn rhai o sefydliadau'r GIG, ceir strategaethau, polisiâu a gweithdrefnau sefydledig sy'n cael eu deall yn dda ond mae sefydliadau eraill yn dal wrthi'n eu datblygu neu heb wneud fawr ddim cynnydd.
- 4.14** Yn sgîl ad-drefnu'r GIG, canfuwyd nad oedd llawer o'r byrddau iechyd newydd wedi cysoni trefniadau cynllunio strategol a gweithredol eu hymddiriedolaethau rhagflaenol eto o ran gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion. Golyga hyn fod gwahanol fodelau o wasanaeth a gwahanol gynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer arlwyo ar waith mewn rhai byrddau iechyd. Roedd hwn yn ffactor a gyfrannodd at rai o'r gwahaniaethau mewn arfer a welodd yr archwilwyr. Er bod rhai byrddau iechyd wedi cydnabod bod angen cysoni eu trefniadau a'u bod wrthi'n gwneud trefniadau i wneud hynny, nid oedd hynny'n wir ymhob man.
- 4.15** Ar nodyn mwy cadarnhaol, canfu'r archwilwyr fod amrywiaeth ehangach o staff dros y blynyddoedd diwethaf yn dod yn rhan o waith cynllunio gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion yn lleol. Roedd gan bob un o sefydliadau'r GIG grŵp maeth ac arlwyo amlddisgyblaethol ar waith, a oedd yn goruchwyllo polisi maeth a datblygiad gwasanaethau arlwyo. Roedd gan bob grŵp aelodaeth eang a chynhwysol, gyda staff deietegol yn arbennig yn chwarae rhan fwy blaengar bellach. Fodd bynnag, roedd un o'r timau hyn wedi dweud, er eu bod yn gwneud cynnydd da o ran meithrin ymagwedd strategol, bod sicrhau bod newid yn digwydd yn dasg lawer mwy anodd oherwydd pwysau gwrthdynnol yn y sefydliad a'r angen i sicrhau cefnogaeth swyddogion gweithredol ac aelodau'r bwrdd i'r newid.

Gallai atebolrwydd gweithredol am arlwyo a maeth fod yn gliriach mewn rhai cyrff iechyd

- 4.16** Hyd yn oed lle ceir trefniadau cynllunio amlddisgyblaethol datblygedig ar gyfer gwasanaethau arlwyo, gall problemau godi os nad oes digon o gefnogaeth neu os nad oes cefnogaeth glir i newidiadau ar lefel y bwrdd.
- 4.17** Pan gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei Fframwaith Maeth ac Arlwyo yn 2002, nododd y dylai fod gan sefydliadau'r GIG un cyfarwyddwr ar lefel y bwrdd yn gyfrifol am arlwyo, maeth a hylendid bwyd. Canfuwyd bod rhai o gyrff y GIG wedi mabwysiadu'r trefniadau hyn gyda'r Prif Weithredwr dros Nyrsio yn ymgymryd â'r rôl. Fodd bynnag mewn tri bwrdd iechyd roedd cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol wedi'u rhannu, gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio ond yn gyfrifol am faeth cleifion a chyfarwyddwr gweithredol arall yn gyfrifol am arlwyo fel rhan o'r portffolio cyfleusterau ehangach.
- 4.18** Nid yw'r ffaith bod mwy nag un cyfarwyddwr gweithredol yn gyfrifol am arlwyo a maeth yn broblem ynddi'i hun o reidrwydd, cyhyd â bod trefniadau cadarn ar waith i oruchwyllo materion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau mewn ffordd gydgyssylltiedig. Lle roedd cyfrifoldebau wedi'u rhannu, ein teimlad oedd y gallai cyrff y GIG wneud rhagor i sicrhau nad oedd y trefniadau yn arwain at gynllunio a rheoli gwasanaethau mewn ffordd ddatgyssylltiedig nac amryfusedd ynglyn ag atebolrwydd.



Dim ond gwybodaeth gyfyngedig y mae byrddau'r GIG yn ei chael am y ffordd y caiff gwasanaethau arlwygo eu darparu ac am eu perfformiad a materion sy'n ymwneud â maeth cleifion

- 4.19** Er mwyn i aelodau bwrdd roi arweiniad effeithiol a gwneud penderfyniadau priodol, mae'n rhaid iddynt gael gwybodaeth dda, sy'n amserol, yn gywir ac yn ddigon manwl, am y gwasanaethau y mae eu sefydliadau yn eu darparu. Mae hyn yr un mor berthnasol i wasanaethau arlwygo a maeth cleifion ag ydyw i agweddau eraill ar y busnes.
- 4.20** Canfuwyd mai adroddiad blynyddol ar eu gwasanaethau arlwygo a maeth cleifion y mae'r mwyafrif o Fyrddau'r GIG yn ei gael ar y gorau. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth lefel uchel iawn a oedd yn crynhoi boddhad cleifion, cyfanswm y gwariant a lefelau incwm. Nid yw'r adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth am feysydd pwysig megis cynnydd o ran gweithredu llwybr gofal maeth Cymru gyfan, y sefyllfa o ran cymhorthdal am brydau bwyd i'r rhai nad ydynt yn gleifion, a faint o fwyd a wastreffir. Hefyd methodd yr adroddiadau â nodi risgiau allweddol a all effeithio ar y gwasanaeth arlwygo megis problemau o ran ôl-groniad o waith cynnal a chadw a chysoni'r gwahanol systemau cynhyrchu bwyd.
- 4.21** Fel arfer, nid oedd sefydliadau'r GIG yn gwneud defnydd priodol o'r data meincnodi ar wasanaethau arlwygo a gynhyrchir gan Stadau Iechyd Cymru drwy'r system EFPMS. Er gwaethaf rhai o'r problemau o ran ansawdd data a grybwyllwyd yn gynharach yn yr

adroddiad hwn, mae data EFPMS yn cynnwys nifer o fesurau perfformiad defnyddiol o ran cost ac ansawdd a fyddai'n helpu aelodau bwrdd i ddeall gwasanaethau arlwygo eu sefydliad. Byddai hefyd yn sail i herio a thrafod lle mae'r ffigurau'n achosi pryder. Fel arfer yr oedd aelodau bwrdd yn cael crynodeb o ganlyniadau'r archwiliad blynyddol o Hanfodion Gofal, sy'n cynnwys agweddau ar faeth. Fodd bynnag, fel arfer caiff y data hwn ei ystyried ar wahân i wybodaeth arall am wasanaethau arlwygo.

Mae angen datblygu dulliau mwy cynhwysfawr a chydgyssylltiedig o geisio barn cleifion a'u teuluoedd a'u defnyddio i helpu i gynllunio a datblygu gwasanaethau arlwygo

- 4.22** Cleifion a'u teuluoedd fwy na thebyg yw'r ffynhonnell bwysicaf o wybodaeth am ansawdd gwasanaethau arlwygo a maeth. Dylai cyrff y GIG ofyn i gleifion yn rheolaidd am eu barn ar ansawdd a dewis y bwyd a gânt ac yn fwy cyffredinol am yr amgylchedd lle maent yn bwyta, y cymorth a roddwyd iddynt wrth fwyta a'r ffordd y cafodd eu hanghenion deietegol eu rheoli.
- 4.23** Yn 2002, argymhellodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru y dylid cyflwyno arolwg cenedlaethol o gleifion er mwyn mesur boddhad gyda bwyd mewn ysbytai. Nid yw hyn wedi digwydd ac ar hyn o bryd mae nifer o wahanol ddulliau o gasglu barn cleifion ar fwyd a threfniadau arlwygo ysbytai, sy'n cynnwys:
- a** arolygon o foddhad cleifion a gynhelir gan adrannau arlwygo (ond roedd amlder yr arolygon yn amrywio rhwng ysbytai);

- b** casglu barn cleifion ar eu gofal maeth fel rhan o'r archwiliad blynyddol o Hanfodion Gofal a gynhelir gan nyrsys ward; ac
 - c** ymweliadau â'r ward gan reolwyr neu oruchwylwyr arlwyo i geisio adborth gan staff nyrsio a chleifion ar ansawdd y bwyd a weinir.
- 4.24** Yn aml caiff sylwadau a gesglir gan gleifion drwy'r dulliau uchod eu hategu gan adborth gan staff arlwyo ar y ward ar ansawdd y gwasanaethau bwyd, a thrwy ymweliadau goruchwylwyr arlwyo neu gogyddion â wardiau yn ystod amser bwyd i arsylwi ar staff arlwyo a leolir ar y ward wrth eu gwaith ac i asesu ansawdd y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei gyflwyno.
- 4.25** Mae ein gwaith wedi dangos y bydd gan staff nyrsio ac adrannau arlwyo fel arfer ffyrdd gwahanol o gasglu barn cleifion nad ydynt wedi'u rhannu. Felly collir cyfleoedd i ddwyn ynghyd wybodaeth am brofiad cleifion mewn un man er mwyn llywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u datblygu yn y dyfodol.
- 4.26** Yn ogystal â cheisio barn cleifion, dylai cyrff y GIG geisio cynnwys cleifion a'u cynrychiolwyr mewn prosesau cynllunio gwasanaethau ac adolygiadau o ansawdd. Canfuwyd fod aelodau o Gyngorau Iechyd Cymuned yn cael eu cynrychioli ar grwpiau cynllunio arlwyo a maeth byrddau iechyd fel arfer. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol ac mae'n rhoi cyfle i'r Gyngorau Iechyd Cymuned rannu gwybodaeth drwy eu gwaith monitro rheolaidd ar amgylchedd cleifion. Canfuwyd hefyd enghreifftiau o gyrff y GIG yn cynnwys cynrychiolwyr cleifion ar grwpiau cynllunio gweithredol arlwyo a maeth, er nad oedd hyn yn arferol.
- 4.27** Dim ond tri bwrdd iechyd a ddywedodd eu bod yn cynnal paneli blasu bwyd a oedd yn cynnwys cleifion yn rheolaidd. Golyga hyn fod llawer o gyrff y GIG yn colli cyfle i gael adborth defnyddiol ar faterion penodol sy'n bwysig i gleifion o ran blas ac ansawdd bwyd a'r ffordd y caiff ei gyflwyno.
- 4.28** Yn gyffredinol, er i ni weld tystiolaeth bod nifer o fentrau i gasglu barn cleifion ar wasanaethau arlwyo, siomedig fu'r cynnydd cyffredinol ar yr agwedd bwysig hon ar gynllunio a darparu gwasanaethau.



Atodiad 1 – Mentrau a dogfennau Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud â bwyd ysbytai a maeth cleifion

Blwyddyn	Menter/dogfen
2001	<p><i>Gwella lechyd yng Nghymru, Cynllun ar gyfer y GIG a'i Bartneriaid</i></p> <p>Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r agenda bolisi ar gyfer datblygu'r GIG yng Nghymru dros bump i ddeng mlynedd. Un maes i'w wella oedd bwyd mewn ysbytai. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer bwyd mewn ysbytai sef:</p> <ul style="list-style-type: none">• dylai fod wedi'i gyflwyno'n dda, yn gadarn yn ddeietegol ac yn faethlon;• dylai fod dewis rhesymol o fwyd a hyblygrwydd o ran amser bwyd a dewis o brydau bwyd yn unol â chyflwr ac archwaeth cleifion; a• dylai cleifion sydd angen cymorth i fwyta eu bwyd gael eu nodi a dylent gael cymorth priodol. <p>Cyflwynwyd targedau ar gyfer Ymddiriedolaethau hefyd, a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• pennu manylebau ar gyfer gwasanaethau arlwygo a oedd yn cael eu monitro'n rheolaidd;• cynnwys cwestiynau ar fwyd mewn ysbytai mewn arolygon o foddhad cleifion er mwyn galluogi Ymddiriedolaethau'r GIG i werthuso ansawdd a safon darpariaeth eu gwasanaethau arlwygo yn rheolaidd;• cynnwys gwybodaeth am wasanaethau arlwygo mewn ysbytai ym mhrosbectws yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â chanlyniadau'r adolygiad blynyddol o arlwygo;• sicrhau bod timau maeth ysbytai yn cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd prydau bwyd cleifion ac ansawdd gwasanaethau i aelod o'r Bwrdd a enwyd; a• sefydlu Astudiaeth o Faeth i ddatblygu polisi ac arfer.

Blwyddyn	Menter/dogfen
2002	<p data-bbox="336 472 703 501"><i>Fframwaith Maeth ac Arlwyo</i></p> <p data-bbox="336 546 1437 607">Mae'r fframwaith yn nodi'r safonau ar gyfer darparu bwyd a gofal maeth i gleifion. Roedd y safonau yn cynnwys y canlynol:</p> <ul data-bbox="373 613 1461 1727" style="list-style-type: none"> <li data-bbox="373 613 1426 674">• Dylai'r cyfrifoldeb am wasanaethau arlwyo, polisi maeth a hylendid bwyd gael ei bennu'n glir a dylai fod llinell glir o atebolrwydd rheoli drwy'r sefydliad hyd at lefel y Bwrdd. <li data-bbox="373 680 1034 710">• Dylai safleoedd bwyd gael eu cofrestru â'r awdurdod lleol. <li data-bbox="373 716 1426 777">• Dylai pob proses paratoi, prosesu, cynhyrchu, dosbarthu a chludo bwyd gael ei chynnal mewn amodau hylan. <li data-bbox="373 784 1417 844">• Dylai cynhwysion bwyd a bwydydd parod gael eu prynu yn unol â manylebau prynu safonol a ddefnyddir gan bob cyflenwr a staff arlwyo. <li data-bbox="373 851 1129 880">• Dylai'r rhai sy'n trafod bwyd gynnal lefel uchel o hylendid personol. <li data-bbox="373 887 1426 947">• Dylai dosbarthiadau o fwyd gael eu derbyn yn unol â gofynion deddfwriaethol, a'u storio o dan amgylchiadau priodol a'u diogelu rhag halogi a dirywiad, gan gynnwys diogelwch rhag plâu. <li data-bbox="373 954 1453 1032">• Dylai pob math o fwyd, gan gynnwys defnyddiau amrwd, cynhwysion, cynhyrchion canolraddol a chynhyrchion gorffenedig gael eu cadw ar dymheredd sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Rheoli Tymheredd) 1995. <li data-bbox="373 1039 1449 1099">• Dylid cynnal asesiadau o ddiogelwch bwyd gyda'r bwriad o nodi'r camau hollbwysig yn y broses o baratoi bwyd yn y sefydliad a chymryd camau rheoli priodol i leihau unrhyw risgiau cysylltiedig. <li data-bbox="373 1106 1437 1167">• Dylai fod polisi sy'n sicrhau bod maeth cywir ar gael i bob claf, gan gydgyssylltu gweithgareddau clinigwyr, deietegwyr, staff arlwyo a staff gwasanaethau cymorth eraill. <li data-bbox="373 1173 1426 1285">• Ar adeg derbyn ac yn achlysurol yn unol ag arfer gorau, dylid sgrinio pob claf a lle y bo angen dylid asesu eu statws o ran maeth er mwyn nodi'r cleifion sy'n dioddef diffyg maeth neu sy'n wynebu risg o ddioddef diffyg maeth. Dylai unrhyw glaf a nodwyd felly gael eu hasesu'n rheolaidd a dylid cymryd camau priodol. <li data-bbox="373 1292 1437 1370">• Dylid diwallu anghenion deietegol pob claf sy'n cymryd maeth drwy'r geg, gan ystyried dewisiadau cleifion, drwy brydau bwyd sy'n bodloni eu gofynion maeth a dylid cynnig y rhain fel dewis o seigiau ar fwydlen ysgrifenedig. <li data-bbox="373 1377 1453 1413">• Dylai'r amgylchedd a ffactorau eraill fod yn addas ac yn galluogi cleifion/cleientiaid unigol i fwyta. <li data-bbox="373 1420 1461 1480">• Dylai pob aelod o staff sy'n trafod ac yn darparu bwyd gael ei oruchwylio a dylid rhoi cyfarwyddyd a/neu hyfforddiant yn unol â lefel eu gwaith a'u cyfrifoldeb. <li data-bbox="373 1487 1453 1576">• Dylai dangosyddion allweddol sy'n gallu dangos gwelliannau mewn gwasanaethau arlwyo a hylendid bwyd, a rheoli risg gysylltiedig gael eu defnyddio ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys y Bwrdd. <li data-bbox="373 1583 1461 1644">• Dylai rheolwyr a'r Bwrdd fonitro'r system sydd ar waith ar gyfer diogelwch bwyd er mwyn gwneud gwelliannau i'r system. <li data-bbox="373 1650 1453 1727">• Dylai'r Archwilwyr Mewnol, ar y cyd ag arbenigwr/arbenigwyr maeth/arlwyo/hylendid bwyd gynnal archwiliadau o bryd i'w gilydd i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod system sy'n darparu ar gyfer maeth, arlwyo a hylendid bwyd ar waith sy'n cydymffurfio â gofynion y safon hon.



Blwyddyn	Menter/dogfen
2003	<p><i>Hanfodion Gofal, Gwella Ansawdd Agweddau Hanfodol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion</i></p> <p>Rhoddodd y ddogfen hon ganllawiau ar wella ansawdd 12 o agweddau hanfodol ar iechyd a gofal cymdeithasol. Mae un o'r 12 agwedd hyn yn ymwneud yn benodol â bwyd a diod: 'Mae'n rhaid i bobl gael dewis o fwyd a diod sy'n bodloni eu gofynion o ran maeth a'u gofynion personol a chael unrhyw gymorth sydd ei angen i fwyta ac yfed.' Ceir saith dangosydd arfer i gefnogi'r agwedd hon ar ofal, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai anghenion maeth pobl a'u gallu corfforol i fwyta ac yfed gael eu hasesu'n rheolaidd. Os oes angen, dylent gael cyngor a chymorth arbenigol. • Dylid annog pobl i fwyta prydau bwyd maethlon, amrywiol a chytbwys, wedi'u paratoi o dan amodau hylan ac wedi'u gweini ar adegau rheolaidd. • Dylid gweini bwyd a diod mewn lleoliad derbynol. Dylent fod ar y tymheredd iawn a dylent gael eu cyflwyno mewn modd atyniadol. • Os collir pryd o fwyd, dylid cynnig bwyd arall a/neu dylai byrbrydau a diodydd fod ar gael ar bob amser. • Dylai dŵr yfed ffres fod ar gael bob amser ac eithrio pan fo cyfyngiadau fel rhan o'r driniaeth. • Dylai pobl gael deietau arbennig yn unol â'u hanghenion meddygol. Dylai hyn gynnwys bwyd wedi'i addasu. • Os bydd pobl yn cael anhawster bwyta a/neu yfed, dylent gael cymorth di-oed, anogaeth a chymhorthion priodol neu help. Dylai pobl sy'n cael anhawster llyncu gael eu hasesu gan therapydd lleferydd ac iaith a lle y bo angen dylid rhoi hyfforddiant i helpu pobl i lyncu bwyd neu ddiod yn ddiogel.
2005	<p><i>Safonau Gofal Iechyd Cymru</i></p> <p>Dywedodd Safon 9 'Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet gytbwys; a • bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.' <p>Dylai byrddau iechyd fod yn gallu dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod systemau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd a'u bod yn cael dewis a deiet cytbwys; • enghreifftiau o adborth cleifion sy'n ymwneud â materion bwyd a maeth a newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth; • bod bwyd yn cael ei storio, ei drafod a'i baratoi yn unol â gofynion statudol; • bod gofynion deietegol maethol, diwylliannol a chlinigol pob claf yn cael eu bodloni yn unol â chanllawiau cenedlaethol; • bod systemau a phrosesau ar waith yn lleol i ganfod, asesu a bodloni gwahanol ofynion maeth cleifion; ac • adnoddau a threfniadau digonol i sicrhau bod cymorth i fwyta ar gael ac yn cael ei fonitro.

Blwyddyn	Menter/dogfen
2007	<p><i>Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwyd a Diod mewn Ysbytai</i></p> <p>Ym mis Rhagfyr 2006, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwyd a Diod. Ei nod oedd paratoi adroddiad ar y ddarpariaeth o fwyd a diod mewn ysbytai i gleifion, staff ac ymwelwyr. Cafodd yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Awst 2007. Nodwyd tri cham â blaenoriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu'r Llwybr Gofal Maeth; • datblygu Ymgyrch Maeth i Gymru; ac • arweinyddiaeth i atgyfnerthu rôl y brif nyrs.
2008	<p><i>Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhyddid i Arwain Rhyddid i Ofalu</i></p> <p>Ym mis Tachwedd 2007, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud argymhellion i sicrhau y caiff prif nyrsys eu grymuso â'r awdurdod, y wybodaeth a'r sgiliau i wella'r amgylchedd gofal a phrofiad cleifion.</p> <p>Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2008 a nododd 35 o gynigion gyda'r nod o wella profiad cleifion o ysbytai, glendid ysbytai a bwyd a maeth mewn ysbytai. Drwy roi mwy o awdurdod i brif nyrsys, byddai'n eu galluogi i redeg eu wardiau yn fwy effeithiol a gwella profiad cleifion. Roedd pedwar argymhelliad yn berthnasol i faeth cleifion, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai Offeryn Archwilio Cymru Gyfan fod ar gael i bob prif nyrs a dylid ei ddatblygu i fesur safonau yn erbyn Hanfodol Gofal. Dylid dosbarthu adroddiadau sy'n deillio o'r defnydd o'r Offeryn Archwilio hwn i Fwrdd Ymddiriedolaeth y GIG a'r Prif Swyddog Nyrsio, Cymru. • Dylai Llwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan fod ar gael i bob prif nyrs er mwyn hyrwyddo arfer proffesiynol gorau mewn gofal maeth drwy'r GIG cyfan. • Dylai prif nyrsys chwarae rhan sylweddol yn y broses o lunio siart hylif safonol i Gymru gyfan i'w ddefnyddio ym mhob un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Dylai pob prif nyrs sicrhau bod eu staff ward yn gyfarwydd â'r siart cymeriant/allgynnyrch cenedlaethol a'i gynnwys yn eu rhaglenni sefydlu. • Dylai pob un o Ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau y caiff atchwanegiadau maethol, lle y cânt eu rhagnodi, eu cofnodi ar siartiau cyffuriau ynghyd â manylion am eu rhoi.
2009	<p><i>Cyflwynwyd siart bwyd a llwybr gofal maeth Cymru gyfan.</i></p>



Blwyddyn	Menter/dogfen
2010	<p data-bbox="341 465 1490 528"><i>Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru Safon 14 – Maeth</i></p> <p data-bbox="341 573 1433 633">Bydd sefydliadau sector gofal y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau'r canlynol:</p> <ul data-bbox="379 640 1484 1048" style="list-style-type: none"><li data-bbox="379 640 1484 701">• caiff anghenion unigol claf a defnyddiwr gwasanaeth o ran maeth a hylif eu hasesu, eu cofnodi, eu diwallu;<li data-bbox="379 707 1353 736">• caiff unrhyw gymorth sydd ei angen o ran bwyta, yfed neu fwydo a llyncu ei nodi a'i roi;<li data-bbox="379 743 898 772">• caiff bwydo ar y fron ei hyrwyddo a'i gefnogi;<li data-bbox="379 779 699 808">• lle y darperir bwyd a diod:<ul data-bbox="418 815 1484 909" style="list-style-type: none"><li data-bbox="418 815 1484 875">- caiff dewis o fwyd ei gynnig, sydd wedi'i baratoi'n ddiogel ac sy'n diwallu anghenion pawb o ran maeth, triniaeth, crefydd a diwylliant; ac<li data-bbox="418 882 778 909">- eu bod ar gael 24 awr y dydd;<li data-bbox="379 916 1042 945">• dylai ysbytai weithredu Fframwaith Maeth ac Arlwyo 2002;<li data-bbox="379 952 1428 1012">• dylai ysbytai sicrhau bod Llwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan yn cael ei roi ar waith mewn ffordd effeithiol ac effeithlon; a<li data-bbox="379 1019 1476 1048">• dylai sefydliadau a gwasanaethau ystyried yr offer cynorthwyol sydd ar gael yn y meysydd clinigol.

Atodiad 2 – Dull archwilio

- 1 Nod ein harchwiliad oedd ateb y cwestiwn: 'A yw ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n unol ag arfer da cydnabyddedig', yn benodol:
- A yw'r trefniadau cynllunio strategol ar gyfer gwasanaethau arlwyo yn effeithiol?
 - A yw'r trefniadau caffael yn effeithiol ac yw'r rhain yn sicrhau bod bwyd yn dod o gyflenwyr diogel?
 - A gaiff prosesau cynhyrchu bwyd eu rheoli'n dda?
 - A yw'r trefniadau ar gyfer dosbarthu'r bwyd i'r wardiau, cleifion yn effeithlon?
 - A yw'r trefniadau ar lefel y ward yn helpu i ddiwallu anghenion maeth?
 - A oes trefniadau effeithiol ar waith i ymgynghori â chleifion ynglyn â'r gwasanaeth arlwyo a dderbynir?
- 2 Cynhaliwyd yr archwiliad rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2010 ac ar ôl ei gwblhau, cyflwynwyd adroddiad ar y canfyddiadau manwl i bob un o sefydliadau'r GIG. Cynhaliwyd yr archwiliad manwl yn yr ysbytai canlynol.

Bwrdd Iechyd/ Ymddiriedolaeth GIG	Ysbytai
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	<ul style="list-style-type: none"> • Ysbyty Treforys • Ysbyty Castell-nedd Port Talbot • Ysbyty Tywysoges Cymru • Ysbyty Singleton
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	<ul style="list-style-type: none"> • Ysbyty Nevill Hall • Ysbyty Brenhinol Gwent
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	<ul style="list-style-type: none"> • Ysbyty Llandudno • Ysbyty Glan Clwyd • Ysbyty Gwynedd • Ysbyty Maelor
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	<ul style="list-style-type: none"> • Ysbyty Llandoche • Ysbyty Athrofaol Cymru
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	<ul style="list-style-type: none"> • Ysbyty'r Tywysog Siarl • Ysbyty Brenhinol Morgannwg
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	<ul style="list-style-type: none"> • Bronglais • Y Tywysog Philip • Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru • Ysbyty Llwyn Helyg
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	<ul style="list-style-type: none"> • Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod • Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes • Ysbyty Coffa Victoria, Y Trallwng • Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	<ul style="list-style-type: none"> • Felindre



3 Cynhwysai'r fethodoleg archwilio y gweithgareddau canlynol:

- arsylwi ar y broses cynhyrchu bwyd o archebion bwyd cleifion i'r broses o ddsbarthu bwyd i'r claf;
- arsylwi ar wasanaethau prydau bwyd ar sampl o wardiau ym mhob ysbyty;
- adolygu sampl o nodiadau achos ar sampl o wardiau ymhob ysbyty;
- dadansoddi gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am y gweithlu a gweithgarwch mewn perthynas â gwasanaethau arlwygo;
- cynnal arolwg o gleifion;
- adolygu dogfennau, megis polisïau maeth ac arlwygo; a
- chynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig ag aelodau allweddol o staff yr ysbyty; gan gynnwys rheolwyr arlwygo, cyfarwyddwyr gweithredol sy'n gyfrifol am arlwygo a maeth, deietegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, prif nyrsys, rheolwyr cyllid a chynrychiolwyr cleifion.

4 Ceir dadansoddiad manylach o rai o'r gweithgareddau hyn isod.

Mynd drwy'r broses fesul cam

Cyn i ni ymgymryd â'r gweithgareddau archwilio ar y ward, dilynwyd y broses o gynhyrchu bwyd o archebion bwyd cleifion i'r broses o ddsbarthu bwyd i'r claf, yn benodol:

- archebu bwyd - ee, systemau cyfrifiadurol, y dewis i gleifion, archebu ymlaen llaw, bwydleni;
- caffael – ee, edrych sut y caiff archebion eu cysoni â rhestrau cynhyrchu bwyd;

- derbyn nwyddau – ee, sut y caiff nwyddau eu gwirio yn erbyn archebion, gan edrych ar ddyddiadau i'w ddefnyddio erbyn/i'w fwyta cyn;
- storio nwyddau – ee, diogelu stoc, rheoli/cylchdroi stoc, monitro tymereddau oergelloedd a rhewgelloedd;
- paratoi a choginio bwyd – ee, gwisgo dillad diogelu, cyfyngu ar fynediad i fannau cynhyrchu bwyd, glendid yr amgylchedd, arferion hylendid personol, defnyddio ryseitiau safonol monitro tymereddau bwydydd wrth baratoi prydau bwyd, prosesau sicrhau ansawdd; a
- chludo bwyd i wardiau – ee, llwytho trolïau bwyd, amserlenni dosbarthu a'r hyn fydd yn digwydd i'r prydau ar ôl iddynt gyrraedd y ward.

Adolygiad o nodiadau achos

Adolygodd archwilwyr hapsampl o hyd at bum set o nodiadau achos ar bob ward a oedd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau arsylwi ar y ward. Diben yr adolygiad oedd asesu a gynhaliwyd sgrinio maethol ar adeg derbyn cleifion i'r ysbyty ac a ddefnyddiwyd offeryn sgrinio wedi'i ddilysu. Hefyd, cymharodd archwilwyr y manylion a gasglwyd yn ystod y broses sgrinio â rhestr wirio o eitemau a oedd yn deillio o ganllawiau ar arfer a argymhellir, gan gynnwys mesur pwysau, taldra, mynegai màs y corff (cymhareb taldra/pwysau), achosion diweddar o golli pwysau'n anfwriadol, archwaeth ar y pryd, cymeriant deietegol 'arferol', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau bwyta neu yfed, problemau o ran y geg/dannedd, a ffactorau risg eraill. Hefyd asesodd yr archwilwyr a oedd cynlluniau gofal ar waith i'r cleifion hynny y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o broblemau maeth ac a gafodd cleifion risg uchel eu cyfeirio i gael asesiad deietegol. Adolygwyd 291 o nodiadau achos.

Arsylwi ar wardiau

Arsylwodd archwilwyr ar wasanaethau prydau bwyd, naill ai amser cinio neu amser swper, ar sampl o wardiau, tair fel arfer, ym mhob ysbyty. Diben yr arsylwadau oedd asesu:

- a oedd cleifion ac amgylchedd y ward yn barod ar gyfer amser bwyd;
- a oedd staff y ward yn cydymffurfio ag arferion hylendid bwyd a diogelwch;
- a gafodd cleifion y pryd o fwyd cywir;
- a gydymffurfiodd ag amser bwyd wedi'i ddiogelu; ac
- a gafodd cleifion gymorth i fwyta os oedd angen hynny.

Aseswyd hefyd lefelau gwastraff nas gweinwyd (prydau bwyd a baratowyd ond nas gweinwyd i gleifion) a gwastraff ar blatiau (prydau bwyd a weinwyd i gleifion ond nas bwytawyd). Gwastraff nas gweinwyd oedd nifer y cyfrannau o fwyd nas gweinwyd i gleifion. Mesurwyd gwastraff ar blatiau drwy wrthdroi canllawiau dogfennaeth asesu maeth yn *Suart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan* fel y byddai pryd o fwyd y cofnodwyd bod 75 y cant wedi'i fwyta at ddibenion monitro maeth yn cyfateb i wastraff o 25 y cant ar blatiau.

Cynullwyd panel bach o staff hefyd ym mhob ysbyty er mwyn blasu nifer o brydau bwyd a oedd yn weddill nas gweinwyd i gleifion. Roedd aelodau'r paneli yn amrywio o ysbyty i ysbyty ond roeddent yn cynnwys rheolwyr arlwyo, cynorthwywyr arlwyo ar y ward, nyrsys, deietegwyr a chynrychiolwyr cleifion. Diben y prawf blasu oedd asesu ymddangosiad ac aroglau bwyd hy, a oedd yn edrych yn flasus, ansawdd, blas a thymheredd.

Arsylwyd ar un amser bwyd ar 62 o wardiau gwahanol.

Arolwg ariannol

Gofynnwyd i bob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre gwblhau ffurflen ar gyfer pob un o'r ysbytai a restrir uchod. Gofynnodd y ffurflen am y wybodaeth ganlynol:

- data ariannol ar gyfer gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion ar gyfer 2008-09 a 2009-10, megis cost staff, darpariaethau, nwyddau, costau rhentu ar gyfer peiriannu gwerthu ac incwm net;
- data a nifer y staff arlwyo yn 2008-09 a 2009-10;
- data ar weithgarwch cleifion ar gyfer 2008-09 a 2009-10; a
- gwybodaeth am y mathau o ddulliau cynhyrchu a'r trefniadau ar gyfer anfon prydau bwyd i'r wardiau.

Arolwg o gleifion

Cynhaliwyd arolwg drwy holiadur i gasglu barn cleifion ar y bwyd a roddwyd iddynt yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty, yn ogystal â'r dewis o fwyd, diwallu eu hanghenion deietegol, yr amgylchedd lle roeddent yn bwyta eu prydau bwyd a'r cymorth a roddwyd iddynt yn ystod amser bwyd. Roedd tua 1,300 o gleifion ar y wardiau pan arsylwyd ar y gwasanaeth prydau bwyd. Nid oedd yn briodol gofyn i bob un o'r cleifion hyn gymryd rhan yn yr arolwg oherwydd eu salwch neu eu hanghenion gofal. Bu'n rhaid i ni ddibynnu ar staff ward i nodi'r cleifion hynny a oedd yn ddigon iach i gymryd rhan, a rhoi copi o holiadur yr arolwg iddynt ynghyd ag amlen ragdaleddig i'w dychwelyd i Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar adeg ein harchwiliad, cyhoeddwyd hefyd yr arolwg yn y wasg leol, yn gwahodd unrhyw un a oedd wedi bod yn glaf yn ystod y 12 mis diwethaf, neu a oedd wedi gofalu am rywun a oedd wedi bod yn yr ysbyty, i ateb yr un cwestiynau, drwy ein harolwg ar-lein, a oedd ar agor rhwng mis Mawrth 2010 a mis Ebrill 2010.

Daeth 694 o ymatebion i law a dychwelwyd 200 o holiaduron drwy'r arolwg ar-lein. Ceir ymatebion manwl yn [Atodiad 3](#).



Atodiad 3 – Ymatebion i'n Harolwg o Gleifion

Cyflwynir dadansoddiad manwl o'r 694 o ymatebion i'n harolwg o gleifion ar ffurf holiadur yn y tablau isod. Trefnir y cwestiynau'n themâu ond dangosir y canlyniadau ar gyfer pob categori ymateb.

Hyd arhosiad ar gyfartaledd	Categoriâu ymateb				
	Llai na diwrnod	2 i 3 diwrnod	4 i 7 diwrnod	8 i 14 diwrnod	Mwy na phythefnos
Canran yr ymatebwyr a arhosodd yn yr ysbyty am	2	15	28	24	32

Cwestiynau ar anghenion maeth	Categoriâu ymateb		
	Do	Na	Ddim yn siŵr
Canran yr ymatebwyr a gafodd eu pwysu yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty	67	30	3
Canran yr ymatebwyr y mesurwyd eu taldra yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty	32	59	9
Canran yr ymatebwyr lle roedd aelod o staff yr ysbyty wedi trafod eu hanghenion deietogol â hwy	41	54	5

Cwestiynau ar y ffordd yr archebwyd prydau bwyd	Categoriâu ymateb					
	Lllenwi ffurflen	Dweud wrth staff	Dewis o'r troli	Y teulu yn dewis drosof	Arall	Nid oedd dewis
Canran yr ymatebwyr yn archebu pryd o fwyd drwy ...	43	35	15	2	2	4

Cwestiwn ynghylch pryd yr archebwyd prydau bwyd	Categoriâu ymateb			
	Y diwrnod cyn y pryd	O'r troli	Ar ddiwrnod y pryd	Nid oedd dewis
Canran yr ymatebwyr yn archebu prydau bwyd ...	49	17	30	4

Cwestiynau ar y dewis ar y fwydlen	Categoriâu ymateb			
	Bob amser	Gan amlaf	Anaml	Byth
Canran yr ymatebwyr a allai ddeall y fwydlen	76	19	1	3
Canran yr ymatebwyr a oedd yn adnabod y dewisiadau bwyd ar y fwydlen	74	21	3	2
Canran yr ymatebwyr a deimlai fod digon o ddewis	46	27	18	9
Canran yr ymatebwyr a oedd yn gallu dewis maint cyfran	46	19	8	27
Canran yr ymatebwyr a deimlai bod y fwydlen yn newid yn ddigon aml <i>(noder nad oedd 15 y cant o ymatebwyr yn yr ysbyty am ddigon o amser i ddweud, felly nid yw eu hymatebion wedi'u cynnwys yn y data a gyflwynir yma)</i>	34	46	14	6
Canran yr ymatebwyr a gafodd fwyd a oedd yn addas ar gyfer eu hanghenion deietegol <i>(noder bod yr ymatebion a gyflwynir yn ymwneud â'r 48 y cant o gleifion a oedd angen deiet arbennig)</i>	51	27	10	12
Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cael digon o ddewis ar y fwydlen o ran eu credoau crefyddol <i>(noder bod yr ymatebion a gyflwynir yn ymwneud â'r 36 y cant o gleifion a oedd angen deiet arbennig oherwydd eu credoau crefyddol)</i>	70	18	3	8
Canran yr ymatebwyr llysieuol neu figan a oedd wedi cael digon o ddewis i ddiwallu eu hanghenion <i>(noder bod yr ymatebwyr a gyflwynir yn ymwneud â'r 19 y cant o gleifion a oedd angen deiet llysieuol neu figan)</i>	31	31	18	20
Canran yr ymatebwyr a oedd ag alergedd bwyd a oedd wedi cael digon o ddewis i ddiwallu eu hanghenion <i>(noder bod yr ymatebion a gyflwynir yn ymwneud â'r 19 y cant o gleifion a oedd angen deiet arbennig oherwydd alergeddau bwyd)</i>	45	31	10	13



Cwestiynau ar baratoi'r prydau bwyd	Categoriâu ymateb			
	Bob amser	Gan amlaf	Anaml	Byth
Canran yr ymatebwyr a gafodd gyfle i olchi eu dwylo cyn iddynt fwyta eu bwyd	65	19	8	8
Canran yr ymatebwyr a deimlai fod yr ardal lle roeddent yn bwyta eu bwyd yn lân ac yn daclus	70	25	5	1
Canran yr ymatebwyr a oedd angen cymorth i fod yn gyfforddus cyn bwyta ac a gafodd y cymorth hwnnw <i>(noder bod yr ymatebion a gyflwynir yn ymwneud â'r 64 y cant o gleifion a oedd angen cymorth i fod yn gyfforddus)</i>	44	31	10	15

Cwestiynau ar gymorth i fwyta	Categoriâu ymateb			
	Bob amser	Gan amlaf	Anaml	Byth
Canran yr ymatebwyr a oedd angen cymhorthion bwyta ac a gafodd hwy <i>(noder bod yr ymatebion a gyflwynir yn ymwneud â'r 17 y cant o gleifion a oedd angen cymhorthion bwyta)</i>	38	29	7	27
Canran yr ymatebwyr a oedd angen cymorth i fwyta ac a gafodd y cymorth hwnnw <i>(noder bod yr ymatebion a gyflwynir yn ymwneud â'r 18 y cant o gleifion a oedd angen cymorth i fwyta)</i>	49	27	11	13
Canran yr ymatebwyr a oedd yn cael y cymorth i fwyta yr oedd ei angen yn fuan ar ôl i'w bwyd gyrraedd <i>(noder bod yr ymatebion a gyflwynir yn ymwneud â'r 18 y cant o gleifion a oedd angen cymorth i fwyta)</i>	47	35	14	5

Cwestiwn ynglŷn â lleoliad lle roedd prydau bwyd yn cael eu bwyta gan amlaf	Categoriâu ymateb			
	Mewn cadair, wrth ymyl y gwely	Mewn ardal fwyta gymunedol	Yn y gwely	Arall
Canran y cleifion a fwytaodd eu prydau bwyd	68	3	28	1

Cwestiynau ar brofiad o amser bwyd	Categoriâu ymateb			
	Bob amser	Gan amlaf	Anaml	Byth
Canran yr ymatebwyr a gafodd y pryd o fwyd a archebwyd ganddynt	56	34	5	4
Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cael bwyd ar y tymheredd y byddent wedi'i ddisgwyl	53	30	10	7
Canran yr ymatebwyr na tharfwyd arnynt gan nyrsys, neu feddygon yn eu trin neu eu hasesu	50	38	9	3
Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon ar yr amser yr oedd prydau bwyd yn cael eu gweini	59	34	4	2
Canran yr ymatebwyr a gafodd ddigon o amser i orffen eu pryd o fwyd	76	21	3	0

Cwestiwn ynghylch a roddwyd digon o fwyd i gleifion	Categoriâu ymateb		
	Do	Gormod	Dim digon
Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cael digon o fwyd	73	14	13

Cwestiynau ar argaeledd bwyd a diod	Categoriâu ymateb			
	Bob amser	Gan amlaf	Anaml	Byth
Canran yr ymatebwyr a gollodd bryd o fwyd ac a gafodd un arall yn ei le	55	25	11	9
Canran yr ymatebwyr yr oedd ffrwythau ffres ar gael iddynt	51	22	16	11
Canran yr ymatebwyr yr oedd diod ar gael iddynt rhwng prydau bwyd	69	21	7	3
Canran yr ymatebwyr yr oedd byrbrydau ar gael iddynt rhwng prydau bwyd	23	15	26	35
Canran yr ymatebwyr yr oedd dŵr ffres ar gael iddynt drwy'r dydd	85	13	2	1



Cwestiynau ar lefelau boddhad gyda'r bwyd a gafwyd	Categoriâu ymateb				
	Ardderchog	Da	Derbyniol	Gwael	Gwael iawn
Canran yr ymatebwyr a nododd fod blas y bwyd a roddwyd iddynt yn	17	37	28	11	6
Canran yr ymatebwyr a nododd fod ymddangosiad y bwyd a roddwyd iddynt yn ...	17	39	28	9	7
Canran yr ymatebwyr a nododd fod iachusrwydd y bwyd a roddwyd iddynt yn ...	18	39	30	9	5
Canran yr ymatebwyr a nododd fod eu boddhad cyffredinol gyda'r bwyd a gawsant yn ...	19	36	27	10	8

Atodiad 4 – Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Nyrsio a Ragnodwyd – Risg Diffyg Maeth

Dyddiad: Problem y Claf a Nodwyd: Mae yn wynebu risg o ddiffyg maeth oherwydd RISG ISEL CAMAU GWEITHREDU 1 – 9 GOFAL ARFEROL RISG GANOLIG CAMAU GWEITHREDU 1 – 12 ARSYLWI A MONITRO RISG UCHEL CAMAU GWEITHREDU 1 – 15 TRIN		
Canlyniad a Ddymunir: Monitro statws cleifion o ran maeth, ymdrin â'r risg a nodwyd ac atal dirywiad pellach		
Camau Nyrsio a Ragnodwyd	Cynnydd/Gwerthusiad	Llofnod
1. Cofnodi data asesu risg MUST ar y Daflen Fonitro		
2. Trin y cyflwr sylfaenol a rheoli symptomau		
3. Cofnodi hoff/cas bethau cleifion a rhoi cymorth a chynghor ar y dewisiadau ar y fwydlen		
4. Nodi ac unioni unrhyw broblemau a all effeithio ar gymeriant maethol ee. llyncu, problemau iechyd y geg, dannedd gosod, ac ati.		
5. Rhoi cymorth ac anogaeth o ran bwyta ac yfed lle y bo angen		
6. Sicrhau bod y claf mewn ystum briodol i fwyta/yfed		
7. Nodi a oedd angen unrhyw gyfarpar arbennig ee. cyllyll a ffyrac a llestri wedi'u haddasu a sicrhau y cânt eu darparu lle y bo angen		
8. Sicrhau bod byrbrydau ar gael yn unol â'r weithdrefn leol		
9. Ailgrinio'n wythnosol neu'n gynt os bydd cyflwr yn newid		
10. Cwblhau siart cofnodi bwyd am dri diwrnod		
11. Adolygu camau gweithredu 1 i 9		
12. Ailbwysu ac ail-sgrinio'r claf ar ôl monitro cymeriant am dri diwrnod		
13. Cyfleu'r canlyniadau i bob aelod o'r tîm gofal iechyd		
14. Cyfeirio claf at ddeitegydd gan roi sgôr MUST a'r rheswm dros ei gyfeirio		
15. Adolygu'r cynllun gofal cyfan ac ailasesu camau gweithredu angenrheidiol 1 i 10		
Enw'r Claf: Rhif Ysbyty:..... Ward:.....		



Atodiad 5 – Dulliau o gynhyrchu prydau bwyd a dulliau o ddsbarthu prydau bwyd

Mae tair prif system o gynhyrchu prydau bwyd ar waith mewn ysbytai yng Nghymru.

- Dulliau confensiynol o goginio – caiff cynhwysion ffres eu coginio bob dydd yng ngheginau ysbytai wrth baratoi ar gyfer amser bwyd.
- Dulliau coginio ac oeri/rhewi lle caiff prydau bwyd eu coginio ymlaen llaw, eu hoeri neu eu rhewi ac yna eu paratoi yng ngheginau ysbytai neu wardiau cyn eu gweini. Cynhyrchir y prydau bwyd hyn mewn Unedau Cynhyrchu Canolog neu fe'u prynir oddi wrth gyflenwyr masnachol.
- Hybrid yw cyfuniad o'r dulliau a amlinellir uchod naill ai yn yr ysbyty neu o fewn yr un bwrdd iechyd.

Nodir cryfderau a gwendidau pob system yn y tabl isod.

Cryfderau a gwendidau gwahanol systemau o gynhyrchu prydau bwyd

Dull coginio	Cryfderau	Gwendidau
Coginio'n ffres	Mwy o hyblygrwydd cynhyrchu i ddiwallu anghenion deietegol arbennig ad hoc. Fe'i hystyrir yn aml yn fwy derbyniol ac mae'n wasanaeth o safon i staff yn y lle bwyty.	Mae staff y gegin yn aml yn meddu ar sgiliau uwch sy'n cynyddu costau. Gall fod yn anodd rheoli system sifftiau'r gegin drwy ddiwrnod gwaith estynedig gyda gorgyffwrdd yn lleihau cynhyrchiant ac yn cynyddu costau. Defnyddir y rhan fwyaf o'r cyfarpar am gyfnodau byr yn unig.
Coginio ac oeri	Caiff seigiau a baratowyd eu hoeri'n gyflym ac yna'u storio am hyd at bum diwrnod, gan gynnwys y diwrnod paratoi. Gellir lleihau'r diwrnod gwaith i 9 am i 5 pm gyda staff a chyfarpar yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon. Caiff bwyd ei swmp-brynu'n ganolog, sy'n lleihau costau bwyd.	Gall costau sefydlu cyfalaf fod yn uwch. Gall fod yn gymhleth ail-dwymo gan gynyddu risgiau i ddiogelwch bwyd a lleihau cynnwys maethol.
Coginio a rhewi	Amseroedd storio hwy, hyd at flwyddyn fel arfer. Gellir lleihau'r diwrnod gwaith i 9 am i 5 pm gyda staff a chyfarpar yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon. Caiff bwyd ei swmp-brynu'n ganolog, sy'n lleihau costau bwyd.	Gall costau sefydlu cyfalaf fod yn uwch. Proses ail-dwymo fwy cymhleth a all achosi bwyd i golli ansawdd ac effeithio ar ymddangosiad.

Mae dau brif ddull o gludo bwyd cleifion i'r wardiau, sef system rhoi ar blât neu system swmp-ddosbarthu:

- System rhoi ar blât – mae cleifion yn dewis pryd o fwyd, sy'n cael ei baratoi a'i roi ar blât yng nghegin yr ysbyty. Yna caiff y pryd o fwyd ei ddosbarthu i'r ward mewn troli a'i weini gan aelod o staff.
- System swmp-ddosbarthu – caiff bwyd ei baratoi a'i roi'n gyfrannau mewn cynwysyddion bwyd a'u dosbarthu i'r ward mewn troli â rheolydd tymheredd lle caiff prydau bwyd eu rhoi ar blatiau cyn eu gweini i'r claf.

Nodir cryfderau a gwendidau pob system yn y tabl isod.

Cryfderau a gwendidau system rhoi ar blât a system swmp-ddosbarthu

System ddosbarthu	Cryfderau	Gwendidau
Systemau rhoi ar blât	<p>Mae rheolaeth ganolog yn golygu bod prydau bwyd yn cael eu cyflwyno'n well ac yn edrych yn fwy atyniadol.</p> <p>Llai o wastraff cynhyrchu (prydau bwyd nas gweinwyd).</p> <p>Gall costau dosbarthu fod yn is am fod troliau'n llai soffistigedig.</p>	<p>Mae'n fwy anodd rheoli cyfrannau ac mae'r gwastraff ar blatiau yn uwch.</p> <p>Mae'n fwy anodd cadw'r bwyd yn dwym.</p> <p>Mae'n fwy anodd darparu ar gyfer newid yn archwaeth claf.</p>
Systemau swmp-ddosbarthu	<p>Lefelau uwch o foddhad ymhlith cleifion oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gallant weld y bwyd wrth iddo gael ei weini neu cyn dewis; a • gellir dewis maint y pryd wrth ei weini. <p>Mae'n haws cadw'r bwyd ar y tymheredd cywir.</p> <p>Llai o wastraff ar blatiau.</p>	<p>Gall costau cyfalaf fod yn uwch.</p> <p>Mae'n fwy anodd rheoli'r ffordd y caiff bwyd ei gyflwyno.</p> <p>Gall costau hyfforddi a goruchwyllo fod yn uwch.</p> <p>Mae gwastraff cynhyrchu yn uwch.</p>



Atodiad 6 – Modelau o wasanaeth arlwyo

Bwrdd Iechyd	Ysbyty	Dull o gynhyrchu bwyd	Lleoliad ailgynhyrchu bwyd ar gyfer coginio a rhewi a choginio ac oeri	Darparu gwasanaeth	Gweini bwyd i gleifion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Ysbyty Treforys	Coginio a rhewi, bwyd wedi'i baratoi ar y safle	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty	Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Staff y ward yn rhoi bwyd ar blatiau a'i weini i gleifion
	Ysbyty Castell-nedd Port Talbot	Coginio ac oeri, yn dod o ffynhonnell allanol gan sefydliad masnachol	Ar y ward		Cynorthwywyr arlwyo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau a'i weini
	Ysbyty Tywysoges Cymru	Coginio'n ffres		Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Staff y ward yn gosod bwyd ar blatiau a'i weini i gleifion
	Ysbyty Singleton	Coginio a rhewi, bwyd wedi'i baratoi ar y safle	Ar y ward		Mae cynorthwywyr arlwyo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau ac mae staff nyrso yn ei weini
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Ysbyty Nevill Hall	Coginio'n ffres		Prydau wedi'u gweini'n unigol yng nghegin yr ysbyty	Prydau wedi'u gweini gan staff cadw tŷ
	Ysbyty Brenhinol Gwent	Coginio'n ffres		Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Mae cynorthwywyr arlwyo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau ac mae staff nyrso yn ei weini

Bwrdd Iechyd	Ysbyty	Dull o gynhyrchu bwyd	Lleoliad ailgynhyrchu bwyd ar gyfer coginio a rhewi a choginio ac oeri	Darparu gwasanaeth	Gweini bwyd i gleifion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Ysbyty Cyffredinol Llandudno	Coginio'n ffres		Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Prydau wedi'u gweini gan staff nyrsio
	Ysbyty Glan Clwyd	Coginio'n ffres		Prydau wedi'u gweini'n unigol gan amlaf yng nghegin yr ysbyty	Prydau wedi'u gweini gan staff nyrsio
	Ysbyty Gwynedd	Coginio'n ffres		Prydau wedi'u gweini'n unigol yng nghegin yr ysbyty	Prydau wedi'u gweini gan staff nyrsio
	Ysbyty Maelor	Coginio'n ffres		Prydau wedi'u gweini'n unigol gan amlaf yng nghegin yr ysbyty	Prydau wedi'u gweini gan staff nyrsio
			Coginio ac oeri, bwyd wedi'i baratoi ar y safle	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty	Prydau wedi'u gweini'n unigol yng nghegin yr ysbyty
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Llandoche	Coginio a rhewi, (bwyd wedi'i baratoi yn Ysbyty Athrofaol Cymru)	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty	Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Cynorthwywyr arlwyo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau a'i weini
	Ysbyty Athrofaol Cymru	Coginio a rhewi, wedi'i baratoi ar y safle	Ar y ward		Cynorthwywyr arlwyo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau a'i weini
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	Ysbyty'r Tywysog Siarl	Coginio'n ffres		Prydau wedi'u gweini'n unigol yng nghegin yr ysbyty	Prydau wedi'u gweini gan staff nyrsio
		Coginio a rhewi, bwyd wedi'i baratoi oddi ar y safle	Ar y ward		Cynorthwywyr arlwyo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau a'i weini
	Ysbyty Brenhinol Morgannwg	Coginio a rhewi, bwyd wedi'i baratoi oddi ar y safle	Ar y ward		Cynorthwywyr arlwyo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau a'i weini



Bwrdd Iechyd	Ysbyty	Dull o gynhyrchu bwyd	Lleoliad ailgynhyrchu bwyd ar gyfer coginio a rhewi a choginio ac oeri	Darparu gwasanaeth	Gweini bwyd i gleifion
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Ysbyty Cyffredinol Bronglais	Coginio'n ffres		Prydau wedi'u gweini'n unigol yng nghegin yr ysbyty	Prydau wedi'u gweini gan gynorthwywyr gofal iechyd
	Ysbyty'r Tywysog Philip	Coginio a rhewi, bwyd wedi'i baratoi oddi ar y safle	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty	Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Prydau bwyd wedi'u gweini gan staff cadw tŷ
	Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru	Coginio'n ffres		Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Mae cynorthwywyr arlwygo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau ac mae cynorthwywyr gofal iechyd yn ei weini
	Ysbyty Llwynhelyg	Coginio'n ffres a choginio a rhewi mewn rhai unedau	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty ar gyfer cynhyrchion wedi'u coginio a'u rhewi	Prydau wedi'u gweini'n unigol yng nghegin yr ysbyty	Prydau wedi'u gweini gan staff cadw tŷ a nyrsio
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod	Hybrid – prif brydau bwyd wedi'u coginio a'u rhewi a brynir yn fasnachol ac eitemau eraill wedi'u coginio'n ffres yn bennaf	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty	Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Cynorthwywyr gofal iechyd yn rhoi'r bwyd ar blatiau a'i weini
	Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes	Hybrid – prif brydau bwyd wedi'u coginio a'u rhewi a brynir yn fasnachol ac eitemau eraill wedi'u coginio'n ffres yn bennaf	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty	Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Cynorthwywyr gofal iechyd yn rhoi'r bwyd ar blatiau a'i weini
	Ysbyty Coffa Victoria, Y Trallwng	Hybrid – prif brydau bwyd wedi'u coginio a'u rhewi a brynir yn fasnachol ac eitemau eraill wedi'u coginio'n ffres yn bennaf	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty	Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Cynorthwywyr gofal iechyd yn rhoi'r bwyd ar blatiau a'i weini
	Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	Hybrid – prif brydau bwyd wedi'u coginio a'u rhewi a brynir yn fasnachol ac eitemau eraill wedi'u coginio'n ffres yn bennaf	Yn ganolog yng nghegin yr ysbyty	Swmp-ddosbarthu'r bwyd i wardiau i'w roi ar blatiau	Cynorthwywyr gofal iechyd yn rhoi'r bwyd ar blatiau a'i weini

Bwrdd Iechyd	Ysbyty	Dull o gynhyrchu bwyd	Lleoliad ailgynhyrchu bwyd ar gyfer coginio a rhewi a choginio ac oeri	Darparu gwasanaeth	Gweini bwyd i gleifion
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	Ysbyty Felindre	Bwyd wedi'i goginio a'i rhewi o ffynhonnell allanol	Ar y ward		Cynorthwywyr arlwygo ar y ward yn rhoi bwyd ar blatiau a'i weini